YR YMOFYNYDD.

RHIF. 31.] MAWRTH, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."---GOL.

ARWYDD-FEIRDD CYMRU.

(Parhad o tudal. 29.)

PENNOD III.

O farwolaeth Owain Glyndyfrdwy hyd undeb Cymru a Lloegr.

1415—1547.

YR oeddent y blynyddau dan ein sylw presennol yn fywiog a therfysglyd, ond er eu bod yn amseroedd rhyfelgar yr oeddent hefyd yn amseroedd cyfnewidiadol, mewn gwybodaeth a barddoniaeth; gan i'r beirdd yn ol barn gywir Lewis Morris, ganu fwyaf a goreuaf * yn y rhan olaf o'r 15fed ganrif. A chan fod y brydyddiaeth yn gyflawnach, yn fwy dealladwy, ac yn well, hyderaf y bydd y bennod hon yn bleserus ac yn addysgiadol.

Yr oedd cyfnewidiadau mawrion yn cymmeryd lle yn raddol yn mhlith y beirdd a'r urdd farddonol, yn y trichan mlynedd cynnwysedig yn y traethawd hwn. Isel iawn oedd cyflwr barddoniaeth Gymreig cyn amser Gruffydd ab Cynan, ond naill ai trwy gynnorthwy o'r Iwerddon, neu ynte trwy ymdrechiadau gwladgarol Bleddyn ab Cynfyn a Gruffydd, ac egni naturiol y genedl, dechreuodd fywhau yn nheirnasiad yr olaf. O hynny allan hyd amser Llewelyn ab Gruffydd parhaodd i gryfhau. Yn y rhan flaenaf o'r amser hwn yr oedd rheolau barddoni yn gaeth iawn, gan fod ffyddlondeb y beirdd tuag at y gwirionedd yn gwrthwynebu ysbryd chwanegiadol pob barddoniaeth fywus. Yr oedd prydyddiaeth yr amser hefyd, yn ymwneud mwy a theimladau tufewnol y beirdd eu hunain, nac a golygiadau allanol ac arferion gwladaidd. Anghyson a thueddiadau cynnyddol, ac ehangiad meddwl oeddent y rheolau cyfyng a chaethiwus hyn; ac o herwydd yspryd ystyfnig yr henfeirdd, tarddodd dan y Llywelyn olaf feirdd ieuangach eu tueddiadau, a phrydyddiaeth rhyddach yn ei hanian. Magwyd llawer iawn o eiddigedd rhwng

* Cambrian Register Vol. I.

pleidwyr yr hen arfer, a hoffwyr caniadau rhyddion, tebyg i'r eiddo Dafydd Benfras, yn Hanes Cymru p. 730. Achwynwyd yn chwerw yn erbyn y blaid newydd, yr hon gan ei bod yn fwy cyson ag anian fywus yr oes, a barhaodd i amlhau mewn nifer. Philip Brydydd a ddywed,—

"Cadair Vaelgwn hir a huberid—i Veirdd,
Ac *nid i'r goveirdd* a gyverchid."

Gyda llawer mwy o dynerwch arddelir eu teilyngdod gwybodawl, a'u galluogrwydd gan Madawg Dwygraig; ond achwyn,—

"————Ac firein feirdd am oferedd,
Yn gynt na'r llechwynt ar Lechwedd Ystrad."

ond nid oes un eglurhad beth a feddylir wrth y gair "oferedd" pa un ai anfoesoldeb neu ynteu afreolaeth barddonol yn unig, Cyfyd Thomas ab Einion, awdwr Mabinogi Taliesin, ei law yn erbyn anfoesoldeb y beirdd; ac achwyn Sion Cent yn y 15fed ganrif fod,—

"Awen arall————
Ar *gelwydd* vudr argoeliant."

Beirdd herodaidd oedd y "celwyddwyr" yma; a'r gwaelaf o honynt oeddent yr "Haid o dinceriaid," a'r "Cobleriaid," a fagasent eiddigedd yn Lewis G. Cothi.

Yn y 15fed. ganrif yr oeddent y beirdd wedi dyfod yn lluosog; yr oedd barddoniaeth yn cael ei thrafod gan fwy o feddyliau a gwahanol dueddiadau—yn cael ei gwellhau, rhyddhau, a'i chywirhau; ac oddiwrth hyn tarddodd y rhyddineb, yr esmwythder, a'r rhwydd-rediad canfyddol yn ngwaith beirdd yr oes. Un o'r pethau mwyaf nodedig yn llenyddiaeth y ganrif hon i'w lluosogrwydd y cyfeiriadau arwyddiol a herodaidd yn nghyfansoddiadau y beirdd, pan gydmerir hwynt ac amseroedd cynnarach. Rhaid fod achosion am hyn, ac felly nid annheilwng fydd y gorchwyl i chwilio am danynt:—

1. Yr oedd gelyniaeth dwfnwreiddiol rhwng y beirdd a'r myneich—nid yn erbyn herodaeth fel arfer gwlad, ond yn erbyn y teimladau bywiog a'r drychfeddyliau brwd ac ehang a fabwysiadwyd gan y myneich, ac oddiwrth ba rai oedd herodaeth yn tarddu; ac yn erbyn y cyfansoddiadau eglur a rhwydd, o roddwyd yn ei gwasanaeth. Am hynny bu hir cyn i elfenau herodaeth gael lle yn mhlith y beirdd, cyn i ehangiad gwybodaeth ac amlhad yr arfer eu gorfod i roddi iddynt le, nes yn y ganrif hon i farddoniaeth Cymru fyned oll yn herodaidd.

2. Pan ymostyngodd y genedl Gymreig i allu Edward y Cyntaf, nid oedd ei awdurdod ef ym mhlith Arglwyddi y Mers ond bychan iawn, gan i Frenhinoedd Lloegr eu cyflogi a galluoedd helaeth ac anatebol yn eu terfynau eu hunain, am eu cynnorthwy yn ngoresgyniad y Cymry gwrol. Gwelodd lygad craff Edward yn ddigon eglur y mawr ddrwg o fod deuddeg neu ugain o fychein frenhinoedd yn y deyrnas; a chan nad oedd mwyach eu heisiau, ymdrechodd gymmaint a allai i leihau eu gallu, trwy ddenu y pendefigion Cymreig tuag at ei hunan. A chyda golwg ar hyn, rhoddodd i'r Cymry dan ei lywodraeth pennodol ei hun, sef gwyr Eryri a Thegeingl, a nryw freintiau. Dan nawdd personol y Brenin aeth llawer o Gymry i drigfannu yn llys Lloegr; a gyda'r diben o ehangu ac ymestyn eu hawdurdod, yr hwn dan y *Feudal system* oedd ond enwedigol yn arglwyddiaethau y Mers, parchasent Brenhinoedd Lloegr y Cymry hyd eithaf eu galluoedd. Rhaid i'r berthynas agos hyn wneud llawer i daenu arferion Lloegr, ac i achosi yn Hywel y Fwyall, Dafydd Gam, Owain Glyndwr, ac Owain Tudur efelychiad o wisgoedd y llys; ac nad oes lle i ddadleu na ddarfu iddynt hwythau ar eu hymweliadau a'u cartrefydd wneud llawer i daenu yr arferion anrhydeddus yn Nghymru; a phan fel yn amser Harri IVedd. dychwelodd O. Glyndwr ac ereill mewn digllonrwydd, defnyddiasent eu gwybodaeth milwrol, a'u gwisgoedd amddiffynol hyd

eithaf eu gallu. Nid oedd yn bosibl i'r beirdd ffaelu sylwi ar yr arferion newyddion, gan i ran fawr o effeithiau da adfywiad gwladgariaeth ddyfod i'w meddiant. O fod yn beth gwael a diystyr daeth barddoniaeth yn anrhydeddus; ac o fod yn "dinceriaid" a chrwydriaid cyfodwyd y beirdd i fod yn ddynion parchus, ac i gwmneiaeth gwyr mawr y wlad. Traetha Deio ab Ieuan Ddu am ei gyfeillach a phendefig Bachalldref, a dengys y modd y defnyddiasent eu hamser ar Nos Nadolig,—

"————darllen Llyfrau
Llin Brenhin Lwythau } ucheledig."
A chanmol achau

Y mae yn eithaf amlwg oddiwrth y llinellau uchod fod herodaeth wedi dyfod yn etifeddol. Sonia Lewis G. Cothi hefyd mewn amryw fannau am ei gyfeillach a mawrion y wlad; ac mewn awdl i Dafydd ab Rhys ab Meurig o Dre'r Delyn, cawn grybwylliad, anrhydeddus i'r bardd a'r boneddwr,—

"Vy swydd ar hyd vo'r vlwyddyn,
Gyda'r llew bes gadair llyn,
Darllen ein dau'r llyfrau'n llwyr,
Dileu son, dadleu synwyr;
O bai ddwy wers heb ddyall,
A'r naill wers ar ran y llall,
Davydd, wrth gywydd Gwiawn,
A'i deall ym mewn dull iawn."

Hawdd gweled a deall effeithiau yr amgylchiadau hyn ar lenyddiaeth Cymru.

3. Rhyfeloedd y Rhosynau ynt y gweithredoedd mwyaf cywilyddus yn hanes y genhedlaeth ddynol; a pharhânt yn dragywyddol ddunod ar yr enw Seisnig. Tâd yn erbyn mab, brawd yn erbyn brawd, a pherthynas yn erbyn perthynas, a ganfuwyd yn fynych yn ymladd mewn rhestri gelynol, ac yn dangos y digllonrwydd casaf yn erbyn eu gilydd. Yr oedd pob rhwymedigaethau naturiol yn cael eu sathru dan draed; creulonder, penrhyddid, llygredigaeth a phob un o'r tymherau drwg a ddygir allan yn wastad gan ryfeloedd cartrefol oeddynt yn rhyddredeg dros y wlad; ac nid oes tueddiad drwg yn y fynwes ddynol na ellid ei weled yma. Ond ni ddylem gasglu oddiwrth hyn fod y wlad yn bendramwnwgl, ac heb un elfen gref i reoli y dyfroedd cyffroedig. Nid ydyw y creulonder, y distryw, a'r annuwioldeb o ryfeloedd yn ymddangos yn eu holl noethineb nes bo gwledydd wedi eu gwareiddio i raddau pell, a chrefydd Crist yn cael ei hadnabod, ei deall, a'i pharchu; yn yr amser oedd Cymru a Lloegr yn cael eu rhwygo gan y rhyfeloedd hyn, nid oedd llais cydwybod yn cael ei wrando; ond aeth yr ysbryd milwraidd yr hwu a fabwysiadwyd gan y rhyfeloedd Ffrengig, yn benrheolwr yr oes; a da oedd hynny, gan nad oedd un elfen arall yn alluog i grynhoi a rheoli y tueddiadau terfysglyd. Dyma'r amser pan flodeuodd barddoniaeth Arwyddfeirddiol Cymru yn ei holl rym a gogoniant; ond cyn gellir deall a chywir ddarlunio barddoniaeth herodaidd y Dywysogaeth, rhaid ystyried effeithiau y rhyfeloedd yma ar gyflwr politicaidd y wlad. Rhwymasant y ddwy genedl yn agosach at eu gilydd—tynasant y pendefigion Cymreig o'u trefydd—a chadarnhawyd y berthynas gan rwymedigaethau elw, ac ymddibyniad ar eu gilydd. Creodd ymddygiad cyfrwys a chyfiawu Edward y Cyntaf blaid gref o Gymry yn ochr y goron; ac yn awr pan oedd y goron yn eiddo y fraich gryfaf, a Lloegr wedi ymrannu yn ddwyblaid, un cyn gryfed a'r llall, daeth o'r pwys mwyaf i ddenu y Cymry i'w hochrau, gan bob un o'r ddwy blaid. Ymlynent y Gwyneddwyr wrth deulu Lancaster; ond trwy ymhel a Gruffydd ab Nicholas taflodd Harri'r 6fed y Deheubarth i ochr York, ac efallai yr hoffent hynny yn well o herwydd eu tybiad mai i deulu Efrawc y perthynai y gor-

on.* Ymranodd Cymru o hyn allan yn ddwy blaid; a chan fod y Llywyddion o bob ochr yn deall pwys eu pleidgarwch lledasant arferion milwraidd Seisnig yn mhlith y ddwy blaid Gymreig. Os oedd yn ofynol cael arwyddion mewn rhyfeloedd tramor, yr oedd lawer mwy mewn rhai cartrefol; a chan hynny gwelwn bob pendefig a'i arwydd neu ddyfais ei hun. O fod yn arferiad cyffredin ni fu hir cyn cael lle yn nghaniadau'r Beirdd, cyfansoddiadau pa rai yut lawn o gyfeiriadau gwir herodaidd. Rhoddwyd llawer iawn o anrhydedd i Syr Rhys ab Thomas, yr hwn oedd wr cyfrifol yn Nheheubarth Cymru, ac mewn parch mawr gyda'r ddau Harri diweddaf; ond dihenyddwyd ei ŵyr am gymmeryd dyfais arwyddiol heb gennad y Brenin Harri'r Wythfed.

4. Dywedir fod Arglwyddi y Mers yn well cynnalwyr o farddoniaeth Gymreig na'r genedl eu hunain;‡ ac y mae eondra y beirdd, o Dafydd ab Gwilym (1350) hyd at Lewis Glyn Cothi, yn eu tai, yn cadarnhau y dywediad. Ceir syniadau lled rhyfedd yn "Jones' History of Wales" ar y pen dan sylw. Dywed, The "Norman language fell into disuse" flynyddau cyn 1450, ond dangosai Thierry well† iddo. "The Trouveadores had taught them (the Welsh bards) the art of thinking, and the fascinating use of numbers,"§ meddai ef heb roddi un sylfaen hanesyddol am ei haeriad. Y mae yn lled debyg i'r beirdd gael eu cynhyrfu yn fawr i brydyddu gan nawdd y barwniaid, a chan siampl y troubadours; ond y dwli pennaf yw sôn am iddynt roddi addysgiadau i'r beirdd. Ond gadewn ei hanesyddiaeth gael dyfod at Logic y gwr dysgedig. "They had arrived at that degree of perfection, that they despised their Norman teachers." Dyma enghraifft o resymu'n gyson! Pa fodd oedd y Normaniaid yn gallu dysgu y Cymry i fod yn gallach na'n hunain! Oedd rhaid iddo gyfaddef na fu y Trouveres erioed gystal a'r Beirdd; a thyma'r *hypothesis* gyfrwys oedd ganddo i gyssoni y gwirionedd a'i *theory* berffaith. Ffolineb yw haeru fod un llenyddiaeth wladol wedi cael ei benthycca oddiwrth genedl arall; o herwydd dengys dysgeidiaeth meddyliol (metaphysics) i ni fod mor hawdded i un genedl ddyfod yn wybodus, ac yw i un arall dan weithrediad yr un fath amgylchiadau. Y mae pob cenedl wedi creu llenyddiaeth ei hunan, a gwahanol amgylchiadau ynt yr achosion fod rhai yn fwy hyddysg nac ereill. Yn Africa boeth mae y Llew yn greadur cryf, a phennaf anifail yr anialwch, ond yn nghoedwigoedd oerach America nid yw ond gwael mewn maint a natur; ac felly nid yw'n beth tebyg i farddoniaeth rhagorol Cymru, gael ei benthycca oddiwrth genedl na fu eirioed yn berchennog ar lenyddiaeth hanner cystal. Nid oedd yn bossibl dwyn mawredd meddyliol, prydferthwch a harddwch dywediad, a meddylfryd gwreiddiol oddiar blant dealldwriaethol (intellectual dwarfs). Gwladgariaeth, y dull o ddywediad, olion ehangiad meddwl, cyfeiriadau at arferion gwledig, a thraethiadau am weithredoedd ynt y pethau a gyfansoddant lenyddiaeth genedlaidd; ac nid yw yn bossibl iddynt gael eu dychymygu na'u benthycca. Ceir yn nghyfansoddiadau y beirdd fynych son am y gwisgoedd a arferwyd mewn efelychiad o'r Normaniaid; oeddynt yn rhan o arferion yr oes, ac am hynny yn teilyngu sylw yr awen ddesgryfiol; oud nid oes lle i ddweud oddiar hyn, fod y beirdd mewn un modd yn ddyledus i'r Normaniaid am eu hysbyd barddonol. Wrth edrych ar balas boneddwr ystyriwn nid am y mortar a'r cerrig, ond am harddwch yr adeiliad a chyfrwysder yr adeiladydd; ac felly wrth farnu gwaith y Beirdd dylem sylwi yn llai manwl ar yr arferion efelychiol o'r Normaniaid, nac ar y cywirdeb, y cyfrwysder, a'r medrusrwydd gyda pha rai oeddynt yn cael eu desgryfio, Nid oes gan y Trouveriaid nemawr crybwylliad am ddim ond arferion herodaidd; ond yr oedd

* Warrington Vol. II. Appendix. ‡ Cambrian Register Vol. I. p. 424. † Thierry p. 294. § History of Wales p. 231.

yn Nghymru lenyddiaeth farddonol eisioes, ac ar hon gosodwyd y brigyn herodaidd i dyfu. Mewn ystod amser aeth y brigyn yn bren hardd a mawr, ond ni wnaeth y rhan herodaidd eirioed lethu yr yspryd barddonol na'r teimladau dyfnwreiddiol oedd ynglyn ag ef; a ffurfia hyn un o brif ragoriaethau barddoniaeth herodaidd Cymru, fod y rhannau estronol a benthycciol yn wastad i'w gweled yn is ddefnyddiol i'r rhannau gwladwriaethol.

5. Cadwais yn ol un o brif effeithiau Rhyfeloedd y Groes gyda'r diben o'i ddwyn dan sylw yma. Ar eu flordd tua Phalestine, cyn ystod eu trigfanniad yno, ac ar eu dychweliad yn ol, daeth y pendefigion Cymroaidd yn adnabyddus a boneddigion, beirdd, a barddoniaeth Ffrainge, Spain, Italy, a Germany. Yfasant o'r un ffynon a'r beirdd Italaidd, Ariosto, Tasso, a Dante, a cheir yn mhlith beirdd Cymru fynych son am enwau "Roland," "Oliver" a rhyfelwyr parchedig ond ffugiol ereill. Cydmara Gruffydd Hiraethog wr i "Rolant," a geilw Lewis Glyn Cothi, M. ab G. ab Nicolas yn "Orlant Abermarlais." Crybwyllir yn fynych am "Siarlymaen;" a rhêd Lewis Glyn Cothi trwy rês o enwau anrhydeddusaf yr urdd filwraidd (Chivalry) wrth son am Edward IV. a Syr William Herbert,---

"Siarlymaen yw Edwart, myn bedd Martin!
Rholant yw Herbert y rhai haelion;
Arthur yw Edwart ral y perthyn,
Gwalchmai yw Herbert a'r dart yn dwn."

Yr oedd "Gi o Warwig" yn eithaf adnabyddus; ac enwir "Syr Ffwg" gyda mawr glod gan Lewis G. Cothi, Dafydd Nanmor, Dafydd ab Edmwnt a Gwilym Lleyn.

6. Yr oedd rhai o'r beirdd yn ddynion dysgedig, a hyddysg yn y iaith Ladin os nad y Groeg; ac yr oeddynt yn yr oes dan sylw yn llawer mwy cyfarwydd ag enwau gwrolion Homer, a Virgil, na beirdd Seisnig yr un amser. Cyfeiria hen fardd yn gyfeillaidd at "Gledd Parnassus;" a dengys Tudur Aled, un o feirdd goreu y Dywysogaeth, ei ddysg pan wrth wylo am ddewrddyn dywed,---

"Troilus, ynteu ar elawr,
Un o'r rhai fu'n Nhroya fawr,
A gwayw draw llas Hector Llwyd,
Oedd ddewr ac a ddaearwyd."

Rhagoriaeth arall o eiddo barddoniaeth Cymru, yw ei bonedd pwyllog, natur hyglodaidd, a'i gwrthwynebiad i bob ffolineb, ac arferion plentynaidd. Ni fu eirioed mor isel a'r eiddo Spain,* a Lloegr; ac y mai hyn yn brawf digonol o uchelder dealldwriaethol Cymru yn y 15fed ganrif; a chredaf fod y tueddiadau uchel, moesol, ac anrhydeddus hyn wedi cael eu mabwysiadu, trwy gydnabyddiaeth a llenyddiaeth Groeg a Rhufain.

Yr achosion crybwylledig oeddent yr elfenau mewn gweithrediad; ac nid oes nemawr o le i ddadleu nad oeddent yn ddigonol i weithredu y cyfnewidiadau a welir, ac i osod herodaeth yn y cyflwr ei cenfydder yn yr amser dan sylw. Oddeutu y pryd hyn oedd herodaeth fwyaf ei rhwysg; ennillodd sylw Richard y Trydedd, a Harri'r Wythfed, a threfnwyd hi yn reolaidd ganddynt; eithaf amlwg yw fod cyflwr herodaeth Cymru yn llawn mor berffaith ag oedd yn Lloegr, fel y deallir oddiwrth y gwleddau, a'r gwthgampau a gynnaliwyd yn Abermarlais gan Syr Rhys ab Thomas. Deall pob darllenydd beth a feddyliaf wrth y geiriau, cyflwr perffaith herodaidd; afreidiol gan hynny fydd i fi fanylu ar beth mor amlwg.

(I'w ddiweddu yn y nesaf.)

---

* Banterwek's History of Poetry and Eloquence Vol. III. p. 67. "Roderick bewailing the defeat of his Army—the Cid alighting at a Church and delivering a speech, are each made the subjects of long romances."

Y DRINDOD.

LLYTHYR III.

Mr. Ymofynydd,—Wrth atteb y gwrthddadl a gyfodir i Undod diranededig y Jehofah, oddiwrth fod y gair Elohim yn y rhif lluosog, ymdrechais ddangos, 1. Mai nid lluosogrwydd o bersonau, ond lluosogrwydd o dduwiau, os dim, y mae'n arwyddoccau. 2. Fod geiriau yn y rhif lluosog yn cael eu harfer yn aml, aml, yn yr Hen Destament, am bethau unigol, pryd nad oes lle i gasglu fod lluosogrwydd o un math yn perthyn iddynt. 3. Fod y gair *Elohim* ei hun yn cael ei arfer am Moses, Samuel, a Solomon; am angel a barnwyr. 4. Ei fod hefyd yn cael ei arfer am dduwiau gau; sef, y llo aur, Baal-berith, Dagon, Ashtaroth, Chemosh, a Milcom; ac nad oes neb erioed wedi casglu oddiwrth yr amgylchiad hwn, fod Moses a Samuel yn rhagor nag un personau; fod y llo aur, Baal-berith, Baalzebub, Dagon &c., yn drindod neu ragor o bersonau bob un o honynt. 5. Dygais siamplau ymlaen i ddangos nad yw gwaith y ferf yn bod yn y rhif unigol ddim yn profi undod yn drindod, a thrindod yn undod, ond Undod pur. Yn awr brysiaf ymlaen at wrthddadleuon eraill o'r un nattur a'r un blaenorol, ac heb well sylfaen chwaith. Dywedir fod yr adnodau canlynol yn brofion o'r drindod, oherwydd eu bod yn gosod allan lluosogrwydd.

Gen. i. 26. A Duw a ddywedodd, *gwnawn* ddyn ar ein delw *ni*, wrth ein llun *ein hunain*, ac *arglwyddiaethant* ar bysg y môr &c.

Gen. xi. 7. A dywedodd yr Arglwydd, deuwch, *disgynwn a chymysgwn* eu hiaith hwynt.

Gen. iii. 22. Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, wele a dyn sydd megis un o *honom ni* i wybod da a drwg.

Isa. vi, 8. Clywais lef yr Arglwydd yn dywedyd. Pwy a anfonaf? Pwy a â *drosom ni*,

Dyma'r holl fannau lle y caf y dull hwn o lefaru mewn cyssylltiad a Duw. Pa mor lleied y nifer! mor anaml y profion, mor fach y dystiolaeth dros athrawiaeth mor aruthrol a thrindod! Athrawiaeth sydd yn gofyn aberthu'r deall, tynnu llygad rheswm, a throi'r dydd yn nos! Gellid meddwl, pe buasai'r drindod o gymmaint pwys, fel y mae bywyd tragywyddol miliynau yn ymddibynu ar ei derbyn neu ei gwrthod; pe buasai o gymmaint pwys ag undod Duw, gellid disgwyl, meddaf, y buasai y fath ymadroddion a'r rhai uchod *mor* aml o leiaf a'r mannau hynny, lle y dysgir undod Duw; lle mae'r geiriau *myfi, tydi. efe*, yn cael eu priodoli i'r Jehofah mawr. Ond nid felly y mae; eithr, lle mae miloedd o fannau yn cynnwys ymadroddion yn gosod allan undod pur yr Arglwydd ein Duw, nid oes ond pedair adnod'u gyd yn cynnwys ymadroddion gwahanol a'u cymmeryd yn ol swn eithaf y llythyren. Beth! Dim ond pedair adnod! Ie, a dim un o'r pedair hefyd dros drindod, canad dros beth y maent.

Y mae'n bur hyspus i'r rhan fwyaf o'ch darllenwyr, ei bod yn arferiad cyffredin gan frenhinoedd, *editors* cyhoeddiadau, (yr ydych chwi eich hun wedi rhoddi'r esiampl wrth ein hannerch ar ddechreu'r flwyddyn hon Mr. Ymofynydd), i alw *ni* arnynt eu hunain, lle nad oes rhagor nag un yn siarad; megis, "know all men by these presents that *we Victoria, &c.*" Ac y mae eich iaith chwithau Mr. Ymofynydd yn gyffelyb wrth ein hannerch y mis diweddaf, lle y dywedwch, "Trwy diriondeb rhagluniaeth caniatëir i *ni* annerch *ein* darllenwyr *a'n* gohebwyr serchog unwaith etto ar ddechreu blwyddyn &c." Dyma'r dull a arferwch trwy eich an-

nerchiad; ond nid wyf fi na neb o'ch darllenwyr, serch hynny, yn tybied eich bod yn rhagor nag un person. Peth lled gyffredin yw siarad felly; ac mor gyffredin a hynny os nid mwy, yw galw chwi a chwithau ar y naill a'r llall wrth annerch ein gilydd; ond peth hollol anghymwys, fel y sylwais yn fy llythyr diweddaf, yw i ragor nag un person i alw *myfi* arnynt eu hunain; hollol amhriodol yw dywedyd *tydi, efe*, wrth neu am Dduw, os yw yn hanfodi yn dri o bersonau; ac etto dyma iaith y Beibl am Dduw; nid mewn pedair adnod yn unig, ond mewn miloedd o fannau. Ai têg sylfaenu athrawiaeth ar bedair adnod, a thaflu'r miloedd o'r neilldu?

A chaniattau fod lluosogrwydd yn gynnwysedig mewn geiriau o'r fath, yr wyf yn gofyn, o ble y cafwyd allan mai *tri* a *dim ond tri* sydd i ni ddeall oddiwrthynt? Gall tair mil arfer y gair *ni* yn gystal a thri. O ble hefyd y cafwyd allan mai lluosogrwydd o *bersonau* sydd i'w deall yma? Os caiff y cyssylltiad benderfynu'r pwngc, lluosogrwydd o dduwiau ac nid personau sydd yma. Bera Elohim sydd ar ddechreu y bennod gyntaf yn Genesis; sef y *duwiau a greodd.*

Yr wyf yn sylwi ymhellach, os yw'r gair ni yn arwyddo lluosogrwydd, y dylai y trindodiaid arfer y gair *chwi* wrth annerch Duw, a *hwynt* wrth siarad am dano. Ond nid felly y gwnant. Pam y rhoddant gymmaint mantais i'r Undodiaid yn hyn? Dyma beth yw bod yn gallach na Duw ei hun.

Etto, os gallasai Elohim, duwiau, gael ei arfer am un Duw, fel y dangosasom yn barod, hawdd yw deall pam y mae'r gair *ni* yn cael ei arfer am Dduw hefyd. Nid yw ragor na phriod-ddull Hebraeg o lefaru. Ac nid yw'r cyfryw ddull yn gyfyngedig i'r iaith Hebraeg, eithr aml y clywir plant yn dywedyd wrth eu gilydd yn Saisneg, "Give us a bit," pan na fyddo ond un yn gofyn.

Y mae Duw yn cael ei osod allan yn y Koran fel yn arfer y gair *ni* am dano ei hun hefyd, a gwyddys yn ddigon da mai undodiaid pur yw'r Moosulmans gyda golwg ar hanfod Duw. Y mae Ramohun Roy wedi dangos yn eglur fod y dull hwn yn beth cyffredin yngwledydd y dwyrain, ac fod dynion yn arfer gormodiaith uchel iawn am danynt eu hunain yn fynych.

Etto, os yw'r dull hwn o lefaru yn angenrheidiol er dysgu dyn yn egwyddorion sylfaenol crefydd, pam na fyddai y dull hwn weithian i'w gyfarfod yn y Testament Newydd, yr hwn a roddwyd i gyflawni pob diffyg a allasai fod yn yr Hen? Nid oes y fath beth yno!

Drachefn, y mae dull o'r fath yn cael ei arfer yn y Beibl yn gyffredin am ddynion, lle nad oes rhagor nag un i'w feddwl. 2 Sam. xvi. 20. Yna y dywedodd Absalom wrth Ahithophel, moeswch eich cynghor a *wnawn ni.* 1 Bren. xii. 9. Ac efe (Rehoboam) a ddywedodd wrthynt hwy beth yr ydych chwi yn ei gynghori, fel ATTEBOM y bobl hyn, y rhai a lefarasant WRTHYF. Ioan iii. 11. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, (medd Crist) mai yr hyn a *wyddom* yr *ydym* yn ei lefaru, a'r hyn a *welsom* yr *ydym* yn ei dystiolaethu, *a'n* tystiolaeth *ni* nid ydych yn ei derbyn. Os DYWEDAIS i chwi bethau daearol &c. 1 Thes. ii. 18. Am hynny yr *ewyllysiasom* ddyfod attoch, (*myfi Paul*) yn ddiau, unwaith a dwy waith hefyd; eithr satan A'N lluddiodd NI. Cair esiamplau o'r fath yn y drydedd bennod trwyddi. Job xviii. 3. Paham y cyfrifwyd *ni* (Job) fel anifeiliaid, ac yr *ydym* yn wael yn eich golwg chwi? Psalm xx. 7. Ymddiried rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch; ond *nyni* (Dafydd) a *gofiwn* enw'r Arglwydd ein Duw. A thrachefn y mae yr un person yn canu Ps. xliv, 6, 7, 8. fel hyn, "Oherwydd nid yn *fy* mŵa yr ymddiried*af*, nid *fy* nghleddyf chwaith *a'm* hachub. Eithr ti *a'n* hachubaist *ni* oddiwrth *ein* gelynion, ac a waradwyddaist *ein* caseion, a *ni* a glodforwn dy enw yn dragywydd." Dan. ii. 36. Dyma y breuddwyd (medd Daniel) *dywedwn* hefyd ei ddehongliad oflaen y brenhin. Ioan iii. 2. HWN (Nicodemus) a ddaeth at yr Iesu liw

nos, ac a *ddywedodd* wrtho, Rabbi, NYNI a *wyddom* mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddiwrth Dduw. Nid oes neb erioed wedi casglu oddiwrth y gair *ni* yn yr adnodau uchod, fod Absalom yn rhagor nag un person; fod Rehoboam, Iesu Grist, Dafydd, Paul, Job, Daniel, a Nicodemus yn drindod o bersonau, serch eu bod yn arfer y rhag enw *ni* am danynt eu hunain.

Y mae Gen. i. 26, yn ddigon o honi ei hunan i ddadymchwelyd y dyb gyffredin. A Duw a ddywedodd, *gwnawn* DDYN ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain ac *arglwyddiaethant* ar bysg y mor." Dyn yn y rhif unigol yn y rhan flaenaf, ac arglwyddiaethant yn y rhif lluosog yn yr ail: ac ond i ni ddarllen ymlaen ychydig bach ni a gawn nad yw Duw na dyn ddim yn lluosog, serch hynny: Felly Duw a *greodd* y dyn, ar ddelw Duw y creodd *efe ef.* Nid y creasant *hwy hwynt.* Felly os rhoddodd Duw orchymmyn i ryw rai eraill i uno ag ef yng nghreadigaeth dyn, ni chafodd ufudd-dod; oblegid efe ei hun ddarfu gyflawni'r gorchwyl; "y creodd EFE ef."

Y mae amrywiol o drindodiaid dysgedig o'r farn nad yw'r fath ymadroddion ddim yn dysgu trindod; megis, Tostal, Mercer, Grotius, Scholz, Storr, Geddes. Y mae geiriau yr olaf mor bwrpasol, fel y gosodaf hwynt o flaen eich darllenyddion. "Y mae rhai o'r ysgrifenwyr Iuddewig o'r dyb," (medd y gwr dysgedig hwn) "fod Duw yn annerch yr angylion sydd yn ei amgylchynu, fel y gwna brenhin ei gynghor." Nid yw eraill, ac yn eu plith y mae rhai o'n hesbonwyr goreu ni, ddim yn cael yn y geiriau *gwnawn ddyn* ddim rhagor na dull pwysig ac urddasol o lefaru, yn gosod allan allu y Creawdwr ac urddas y crëedig. Fel beirniad, dywedaf yn unig nad yw *noshe* o angenrheidrwydd yn cynnwys lluosogrwydd; ac yr wyf yn credu y cair ef yn yr ysgrifeniadau Iuddewig yn cael ei gymmwyso at un dyn marwol, sef, Can. i. 11. "Tlysau o aur a *wnawn* i ti;" lle yr wyf yn hyderus mai Solomon ei hun yn unig sydd i ni i ddeall: megis yn adnod 48 "Ni a *redwn* ar dy ol," sydd yn perthyn yn unig i'w gariad. Felly hefyd yn yr 8fed ben. ar 8 adn. Ac nid yw'r dull hwn yn perthyn i'r Hebraeg yn unig. Yn sicr nad yw'r Mossulmans yn drindodiaid; er hynny nid oes dim yn fwy cyffredin yn y Koran na Duw yn llefaru yn y rhif lluosog. "Ni a wnaethom,—ni a roddasom,—ni a orchymynasom." Gan hynny yr wyf yn cael fy nhueddu yn gryf i feddwl nad yw'r *noshe* yn Genesis ddim yn arwyddoccau lluosogrwydd."

Y prawf nesaf dros drindod, ar yr hwn a gaf sylwi yw, Ps. xxxiii. 6. "Trwy *air* yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy *Yspryd* ei enau ef." Saisneg, *breath of his mouth.* Dywedir fod yr Arglwydd, ei air, a'i Yspryd yn cael eu gosod allan yma fel yn creu'r cyfan.

Rhyfedd, rhyfedd! fod rhagfarn a ddallbleidiaeth yn attal dynion i ganfod arddderchawgrwydd yr ymadrodd goruchel a phrydyddol hwn! Gair, yspryd neu anadl yr Arglwydd, yr un peth ydynt a Duw ei hunan. Cafodd y gyffelybiaeth ei thynnu, yn eithaf tebyg oddiwrth iaith Duw wrth greu'r byd yma, Gen. 1. 3. "A Duw a ddywedodd bydded goleuni, a goleuni a fu;" bydded ffurfafen; bydded goleuadau yn y ffurfafen; casgler y dyfroedd; egined y ddaear; heigied y dyfroedd; dyged y ddaear bob peth byw, ac felly y bu. Nid oes dim i ni ddeall fod Duw yn siarad mewn gwirionedd; ond yn unig i bob peth neidio i fod, mor rhwydd a dywedyd gair i ni: felly, medd y Salmydd, trwy *air* yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd, Yr oedd gair, *un* gair, yn ddigonol i'r gwaith. Yn yr ystyr hyn, y mae'r meddwl yn *grand* i'r eithafion. Mai dyma oedd meddwl y Salmydd sydd amlwg oddiwrth y 9fed adnod yn yr un Salm, lle y dywed, "Canys efe a *ddywedodd* ac felly y bu, efe a orchymynodd, a hynny a safodd." Dim ond gair, ac wele yr holl fydoedd yn ymwthio i'r golwg; dim ond ewyllysio ac wele nodau disclaer y duwdod yn rhesu eu hunain yn eu lleoedd priodol! Mae'n dost na chei'r Salmydd esbonio ei hun, ac yntau yn gwneuthur hynny mor dda, mor ardderchog!

Yn nesaf, yr wyf yn sylwi, os rhaid casglu fod gair Duw, Yspryd Duw, yn bersonau gwahanol iddo, serch fod iaith oruchel prydyddiaeth yn priodoli creadigaeth iddynt, ar y tir hwn nid tri o bersonau yn unig a gawn, ond llawer yn rhagor, fel yr ymddengys oddiwrth yr ysgrythyrau canlynol, Job. 26. 12, 13, "Efe a ranna'r mor a'i nerth, ac a dery falchder a'i *ddoethineb*; efe a addurnodd y nefoedd a'i Yspryd; ei law ef a luniodd y sarph dorchog." Ps. 19. 1. "Y nefoedd sy'n datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sy yn mynegi gwaith ei *ddwylaw* ef." Isa. 59. 16. "Am hynny ei *fraich* a'i hachubodd, a'i *gyfiawnder* ei hun a'i cynhaliodd." Ecs. 8. 19. "Yna'r swynwyr a ddywedasant, *Bys* Duw yw hyn" (sef y gwyrthiau). Luc. 11. 30 "Eithr os myfi trwy *fys* Duw ydwyf yn bwrw allan gythreuliaid, diammau ddyfod teyrnas Dduw attoch chwi." Wel, wel, dyma lu'n lân o'r diwedd; mae gair Duw, yspryd Duw, doethineb Duw, nerth Duw, llaw Duw, dwylaw Duw, braich Duw, bys Duw, oll, *oll* yn bersonau dwyfol, oblegid y mae gweithredoedd Duw yn cael eu priodoli i un a'r llall o honynt. Hawdd iawn fyddai profi ar y tir hwn fod llygad Duw, clust Duw &c. yn bersonau dwyfol hefyd, oblegid y mae'n rhaid eu bod yn hollbresennol cyn y gallant ganfod a chlywed y cyfan!! Wele ni heb un drindod, ynghanol aml-dduwiaeth!!

Y mae llu o drindodiaid dysgedig yma etto yn cyfaddef nas gallent weled trindod yma: eithr ni ddifynaf onid geiriau Calfin yn unig, yr hwn a ddywed, fel hyn, "Darfu i'r hynafiaid, gyda gormod o gyfrwysdra, ddwyn ymlaen yr adnod hon yn erbyn y Sabeliaid, i brofi duwdod trag'wyddol yr Yspryd. Ond y mae'n eglur oddiwrth fannau eraill, ac yn neillduol oddiwrth Isa. 11. 4. fod *Yspryd neu anadl ei enau*, yn arwyddoccau *ymadrodd*. Wrth brofi duwdod yr Yspryd, ni wnawn, gan hynny, wasgu'r dystiolaeth hon ar Sabelius * * * Pe gwnai rhyw un wrthnebu, na fyddai'r personau yn cael eu gwahaniaethu, pe byddai'r geiriau *Yspryd a gair* yn gyfystyr; yr wyf yn atteb, nad yw *yspryd* ddim yn cael ei osod yma fel mewn rhannau eraill, lle y mae yn amlwg yn cael ei wahaniaethu oddiwrth y Gair; ond y mae *Yspryd y genau* yn cael ei gymmeryd yn ffigwraidd am yr hyn sydd yn cael ei barablu, fel pe y dywedid, 'Cyn cynted ag yr anfonodd Duw anadl ei enau allan, neu y dywedodd y gair, neidiodd y nefoedd i fodoliaeth, wedi ei haddurno a nifer anghredadwy o ser." Felly Calfin, a chydag ef, wele derfyn fy llythyr innau.

O. EVANS.

COSP DDIRPRWYOL.

(*Parhad o tudal.* 43.)

O. Nid ydyw hynny yn gwneuthur un gwahaniaeth; oblegid lle na bo bai ni all fod cosp.

A. Oni allaf fi gymmeryd ei fai a'i gosp ef arnaf fy hun.

O. Beth, myned yn Fauntleroy ffugiol!

A. Nage. Mae ffugio yn arwyddo twyllo, ond yn y drefn hon y mae cyfaddefiad cyhoedd yn cael ei wneuthur o flaen y byd.

O. Cyfaddefiad! O ba beth? O gyngrair i dwyllo y byd nid yn unig a cynnyrchiolaeth gellwerus o gyfiawnder, ond a *Llofryddiaeth gyfraithiol.*

A. Rhaid i mi ofyn caniatäd i edrych arno gyda golwg arall. Yn lle cyngrair i dwyllo, ymddengys i mi yn drefn fwyaf cywraint ac addas i—

O. I ba beth?

A. I achub bywyd fy nghyd-greadur.

O. Meddyliais eich bod yn myned i ddywedyd, i diangc o afaelion cyfiawnder.

A. Na Syr, nid hynna yw fy amcan, ond i gymmysgc trugaredd a barn.

O. Gall eich annogaeth [diben] fod yn garedig i'r eithaf; ond os na ellir gwneuthur yn ôl eich *schemes* a'ch cynllun chwi, heb drais gwaradwyddus ar lythyren, ac ysbryd y gyfraith, a hollol ddifaterwch am ddibenion cyfiawnder, ni ddylid ei gynnyg; am fod y pethau hyn yn rhy bwysig i gael eu gadael heibio, er mwyn maldodi eich dull gorphwyllog chwi i ddangos eich cariad. "*Fiat justitia, ruat coelum.*" "*Gwneler cyfiawnder, er syrthio o'r nef.*"

A. Rhaid addef nad ydyw fy nyfais i yn hollol unol a llythyren y gyfraith, ond yr ydwyf yn methu gweled ei bod yn groes i'w hysbryd hi. Oblegid mae y gyfraith yn dal aberth yn fy mherson i. Yn y daliad hwn ynnof mae cyfiawnder nid yn unig yn cael iawn, yn fy nieuogrwydd i, ond rhagor na allai hi ei ofyn. Mae holl ddibenion cyfiawnder yn cael fel hyn eu cyflawni yn llawn. Oblegid yn fy marwolaeth i y mae casineb eithaf cyfiawnder yn erbyn drwg yn cael ei ddal allan. Y mae trugaredd yn cael ei estyn i ddyn euog, a rhybudd, a siampl yn cael eu rhoddi i rwystro ereill o hyn allan i gyflawni y cyffelyb ddrwg. Felly tra mae hwn yn fesur ag nad yw y gyfraith yn darparu am dano; etto nid yw yn groes i'r gyfraith, ond uwch ei llaw. Mae y gyfraith fel hyn yn cael ei mawrhygu a'i gwneuthur yn ogoneddus.

O. Rhaid i mi ddywedyd fod eich cynnyg yn droseddiad pendant ar lythyren ac ysbryd y gyfraith. Nid yw y gyfraith yn dal un aberth yn eich person chwi. Ni faidd ac ni all eich ystyried chwi felly. Cyhyd ag y byddoch heb wneuthur drwg, ni all dynnu yn ôl oddi wrthych ei llaw ymddiffynnol. Nid oes gan hynny ddim un iawn i chwi i'w wneuthur. Ac am fod y gyfraith yn cael ei mawrhygu, a'i gwneuthur yn ogoneddus trwy eich marwolaeth chwi, fel dyn dieuog y mae mor bell o fod yn wir, fel ag y byddai i'r fath waith fod yn foddion i'w hiselau a'i dianrhydeddu pe gallai hi ei ddioddef.

A. Pa fodd hynny?

O. Am y buasai, yn lle cyrraedd ei hamcan yn unol ag ystyr eglur ac amlwg ei deddfau, trwy droi heibio, a gwrandaw ar eich dyfais chwi, yn ymadael a'i llwybr cynefin, ac yn myned ar ei gyrfa o dreialon nas gellid ammau eu canlyniadau drwg. Oblegid ystyriwch y mae hi, hyd y nod wrth wrandaw ar eich trefn chwi, yn talgyngu rhwng yr euog a'r dieuog; wrth ei fabwsiadu collai ei hamcan, ac elai yn wawd a dirmyg dynolryw. Heb law hynny beth fyddai effaith y fath siampl? Os gall dirprwy gael ei gymmeryd mewn *case* o eithafoedd hwn, ni all yn sicr gael ei wrthod mewn *cases* o lai eu pwys, pan y byddo lawer yn haws cael dirprwyon. Chwanegai troseddiadau yn y modd hyn mewn cyfartalwch i'r modd y byddai y gyfraith yn colli ei gallu i'w cyrraedd hwynt. Na. Os yw y gyfraith i gael ei mawrhygu, a'i hanrhydeddu, rhaid iddi fyned ym mlaen ar hyd llwybr cywir a didro, a chael ei gweinyddu mor ddidderbyn wyneb fel na byddo yr uchaf yn y deyrnas uwchlaw ei chyrraedd, na'r gwaelaf is law ei hymddiffyniad.

A. Y mae eich sylwadau yn cynnwys na allaf fi gymmeryd trosedd Fauntleroy arnaf fy hun.

O. Ydynt yn gymmwys. Os trosedd Fauntleroy ydyw, pa fodd y gall fod yn eiddo chwi?

A. Oni ellir ei gyfrif ef i mi?

O. Ei gyfrif ef i chwi! Pwy fyn, neu pwy all ei gyfrif ef i chwi? Nid oes neb yn eich drwg dybio chwi. Mae Fauntleroy wedi cael ei brofi yn euog: nid ydyw yn gwadu y cyhuddiad; ac y mae yn cyfaddef uniondeb y ddedryd.

A. Ond a allaf fi ddim cyfrif ei drosedd i mi fy hun?

O. Ydych chwi yn euog ynte, neu yn ddieuog.

A. Euog.

O. Euog!

A. Ie, trwy gyfrifiad, ond nid mewn gwirionedd.

O. Hynny yw dywedyd euog, ond dieuog: a dieuog ond euog. A fu erioed y fath wrthddywediad?

A. Er nad ydyw euogrwydd a dieuogrwydd i gael eu cymmysgu, etto rhaid addef yn ôl arferion sefydledig dynolryw y gall un person roddi iawn am feiau y llall. Er siampl, bwriwch fod Faunteroy wedi ei garcharu am ddyled i swm ei *forgery*, ac oherwydd ei dlodi, a phenderfyniad ei ofyuwr nad oes ganddo obaith yn y byd am ryddhad; a bwriwch fy mod i yn talu yn llawn ei holl ddyledion, a ydych chwi yn meddwl y byddai gan neb hawl i'w gadw yn hwy yn y carchar?

O. Dim.

A. Yna mi allaf gyfrif dyled Fauntleroy i mi fy hun, ac fe all y cyfrifiad gael ei dderbyn, ond ni all ei drosedd. Beth ydyw y rheswm o hyn? Nid redais i ddim i'w ddyled ef, mwy nag y cyflawnais ei drosedd, ac etto caniateir i mi wneuthur iawn dros y naill ond nid dros y llall.

O. Ni chaniateir i chwi roddi iawn am ei bechod ef oherwydd nas gallwch; mae yn analluadwy i chwi mewn un ffordd unol a'r gwirionedd gael eich cyfrif yn euog. Nid oedd gan ei ofynwr ef ychwaith un hawl yn y byd i'ch gofyn chwi am ei ddyled ef; ond chwi o'ch gwirfodd a ddaethoch ym mlaen ac a'i talasoch. Efe a'i derbyniodd am mai arian yn unig oedd ei ofyn, yr hyn a allasech chwi ei roddi dros, neu i Faunteroy hyd un swm ag y gwelai eich ewyllys a'ch cyfoeth yn gymmwys. Ond ystyriwch y gwahaniaeth rhwng trosedd ac arian. Tra yr ydych yn rhwym o addef na ellir trosglwyddo trosedd, gwelwch ar y llaw arall fod arian wedi eu gwneuthur i'r unig ddiben o gael eu trosglwyddo o law i law. "Mi a'u puodd, ef a'u piau, a chaethion buont i filoedd."

A. Ond er na ellir trosglwyddo trosedd, etto gellir trosglwyddo y gosp, megis yn achos Damon; yr oedd y diheuyddwr ar y pwynt o gyflawni ei swydd pan daeth Pythias i'w ryddhau.

O. Y mae yn dda gennyf i chwi ddwyn ym mlaen y siampl uchelglod honna o gyfoillgarwch gwirioneddol, fel y gallwyf ddangos i chwi y gwahaniaeth mawr sydd rhwng cyfraith a'i sylfaenedig ar egwyddorion anghyfnewidiol cywirdeb, a'r un sydd yn tarddu o ewyllys trawsfwodraethwr anwadal. Tan lywodraeth ben arglwyddiaethol, gad y brenhin osod heibio y cyfreithiau am ei fod yn rhydd o bob attalfa, am hynny nid oes ho i erfyn am gysondeb yn ei lywodraeth ef; ni ddylem synnu gan hynny am i Dionysius yr henaf orchymyn trosglwyddo cosp oddiar un cyfaill i'r llall. Yr oedd ei dderbyniad ef o un cyfaill i farw dros y llall yn anllad, anwadal, a hollol groes ar bob pwnge i gyfraith a chyflawnder a l'ont sylfaenedig ar egwyddorion priodol. Oblegid fel y dywedais o'r blaen, "*Lle bo trosedd, ni all gael ei drosglwyddo; a lle na bo trosedd, ni all fod cosp.*"

A. Bwriwch fod Faunteroy wedi caro un o dderiliaid y brenhin, neu wedi cyflawni rhyw drosedd bychan (*petty crime*), ac am hynny ei fod wedi ei farnu i dalu dirwy o fil o bunnau i'r brenhin; hyn ydyw ei gosp ef, ond nis gall ef ei thalu—

O. Talu cosp!!

A. Syr yr wyf yn dymuno peidio a chael fy rhwystro. Yr wyf yn dywedyd ni all ef ei thalu hi—Yr wyf finnau yn ei thalu drosto, ac nid oes un gwrthddadl yn cael ei wneuthur yn erbyn ei derbyn; nawr oni ellir dywedyd fy mod i yn y *case* hyn wedi dwyn ei gospedigaeth ef, er yn ddieuog o'i fai?

O. Dim mewn un modd, oblegid ei gôd sydd yma yn cael ei chospi yn unig; os y bydd yn wâg, nid oes arnoch chwi ddim rhwymau i'w llanw; ond os y byddwch yn ewyllysio hynny, nid ydyw eich rhodd ddim yn gosp.

A. Ond os y talaf fi drosto swm ei ddirwy, y mae ef yn diange rhag y gosp; ac y mae y gyfraith yn cael ei boddloni: nawr paham na allaf ar yr un egwyddor roddi fy mywyd?

O. Pe baech ond cofio yr hyn a ddywedwyd mewn perthynas i ddyled, ni theimlech un anhawsdra yn y pwnge. Dirwy oedd ei gosp ef; hyd nes y byddo y ddirwy honno wedi ei thalu y mae hi yn ddyledus i'r gyfraith. Ond y mae llawer o wahaniaeth rhwng ei gôd, a'i berson ef. Rhaid i gosp bersonol gael ei dwyn gan y person ei hun: pe amgen cymmeradwyai y gyfraith yr hyn na fyddai ond gwawd o gyfiawnder.

A. Felly yr ydych chwi yn dal ei bod hi yn ammhossibl i un person ddwyn cosp am ddrygau un arall.

O. Ydwyf yn bendant.

A. Wel ynte dyma *gases* i'r pwrpas. Byddaf lawen i wybod pa fodd y gwnewch a hwy. Nid oedd teulu Fauntleroy yn gydgyfranogion ag ef o'r trosedd, ond os bydd i'w ddedryd gael ei chyflawni, hi a'u drwgliwia hwynt, ac nis gellir cyfrif y niweidiau a wna iddynt. Ond mi ddygaf siampl o grefach etto. Beth pe byddai i Arglwydd cyfoethog gael ei ddedrydu i golli ei urddas, byddai i'w etifeddion, er yn ddieuog o'i fai, gael eu diraddio a'u tlodi mewn urddas, a ffortyn. Ie, yr ydym yn gweled natur ei hun yn ol y drefn ddwyfol yn dilyn yr un reol. Trwy ei weithredoedd pechadurus, gall dyn drosglwyddo clefydau i'w blant, y rhai a'u gwnant yn druenus trwy eu bywyd, ac yn y diwedd a fyddant yn angeu iddynt. Yr ydym yn y siamplau hyn, ac aneirif eraill a ellid enwi, yn gweled y dieuog yn dioddef yn lle yr euog.

O. Ond a ydyw yr euog yn cael eu rhyddhau oddiwrth eu drwg a'u cosp?

A. Na, ni allaf fi ddim dywedyd eu bod.

O. Wel ynte, y mae yn rhaid i chwi addef fod yr euog ar y cyntaf wedi cael eu cospi, a chwi a welwch hefyd, y gall ereill mewn cyssylltiad a hwynt gael dioddef ac yn drwm am eu bai hwy. Ond chwi welwch mai nid cosp ydyw eu dioddefaint hwy; ond drygau, ac anffodiau ydynt. y rhai ydynt yn cymmeryd lle yn ôl y cyfreithiau ydynt yn gwneuthur y gymdeithas ddynol i fynu, a'r rhai, mor bell ag y perthynant i gyfreithiau natur, nas gellir heb wrth i'w rhwystro. Ond sylwch fel y mae y drwg hwn yn cael ei orbwyso—mor gywir y mae natur yn dal ei chlorian—mor gyfartal y mae da a drwg yn cael eu rhannu i ddyn. Oblegid fel y mae un yn dioddef am fai y llall, felly gall mewn cyfatebolrwydd fwynhau trwy ragoriaethau un arall. Ond gan na allai dyn gael ei gyhuddo o fai yr un cyntaf, nis gall dyn chwaith gael ei glodfori am rinwedd y diweddaf. Gan na ellir galw dioddefaint y blaenaf yn gosp, ni ellir galw mwynhäd y llall yn wobrwy; ond tynged dda neu ddrwg yn ôl rhediad naturiol pethau.

A. Wrth hyn y mae i mi i'w gasgelu na ellir trosglwyddo da na drwg; mwy nag y gellir cosp a gwobrwy; a phan y byddo un yn mwynhau trwy dda, neu yn dioddef trwy ddrwg un arall, ni all gyfrif hyn nag yn deilyngdod nac yn anheilyngdod ynddo ef ei hun, ond ei dynged dda neu ddrwg yn ol rhediad naturiol pethau.

O. Bid sicr.

A. Ond pa fodd y mae i mi gyssoni eich athrawiaeth chwi ac arferion pob cenedl? Oblegid y mae pob cenedl yn cydweled y gall trosedd a chosp gael eu trosglwyddo.

O. Rhoddwch siampl.

A. Aberthau. Onid ydyw aberthau ym mhob oes o'r byd yn cael eu hystyried yn iawn am drosedd, hyd y nod yn ol dywediadau naturiol rheswm a chrefydd? Ar yr achlyssuron hyn, yr ydoedd pechod dyn yn cael ei ystyried wedi ei drosglwyddo ar yr aberth, a chwedi ei ddileu trwy aberthiad o'i fywyd ef. Ie, yn ol

cyfraith Moses yr rhon gafodd ei sefydlu gan Dduw, gallai pechodau nid un dyn yn unig, ond yr holl bobl gael eu trosglwyddo ar y bwch dihangol i'w dwyn ymaith. Dyma eiriau y gyfraith. "Ac Aaron a rydd ei ddwylaw ar y bwch, ac a gyfaddef uwch ei ben ef holl anwireddau plant Israel, a'u holl droseddiadau, a'u holl bechodau, gan eu rhoddi ar ben y bwch, ac a'i henfyn ymaith trwy law dyn cyfaddas i'r anialwch. A'r bwch a ddyg arno ei hun eu holl anwireddau i dir annhrigiannawl, &c."

O. A ydych chwi yn deall hyn yn ôl swn llythyrenol y geiriau?

A. Pa fodd arall?

O. Gwawdlyd! Ffordd hawdd iawn, bid sicr, o gael gwared o drosedd a'i ganlyniad, trwy eu rhoddi ar ben bwch i gael eu dwyn ymaith! Y mae hyd y nod eich iaith eich hun yn dangos anmhosibilrwydd trosglwyddiad. Oni ddywedasoch yn awr yn union, yr ystyrid fod pechodau dyn yn cael eu trosglwyddo ar yr aberth, ac yn cael eu dileu trwy aberthiad o'i fywyd. Gyda chymmwysder y dywedasoch "*meddylid*," am nad oedd ddim amgen na meddyliad. Gwrandewch eiriau pendant Apostol mawr y cenedloedd: "*Oblegid amnhosibl yw i waed teirw a geifr i ddwyn ymaith bechodau.*" Oblegid gweithred bersonol ydyw pechod ag sydd eisioes wedi ei chyflawni ac am hynny yn *ddi-alw-yn-ol;* ni all yr hyn a wnaeth yr euog gael ei wneuthur yn weithred un arall; ac ni all byth gael ei dadwneud. Tra y byddo byw y mae yr euogrwydd yn glynu wrtho ef; a phan y byddo farw erys wrth ei goffadwriaeth am dragywyddoldeb, os yw bossibl cofio am dano cyhyd. Yr ydwyf yn ei ddywedyd gyda pharch, ni all Hollalluawgrwydd ei hun alw yn ôl yr hyn sydd wedi myned heibio.

A. Yn sicr nid ydwyf yn eich deall. Gorch'mynwyd i Fauntleroy gael ei ddihenyddio. Y mae y gorchymmyn hwnnw wedi myned heibio. Ond a ydyw ddim yn bossibl galw y gorchymmyn hwnnw yn ôl? Oni all y brenhin arfer ei allu penarglwyddiaethol a rhoddi maddeuant llawn, a rhydd?

O. Gwir iawn, efe a all. Ond a fyddai yn llai gwir am hynny, fod Fauntleroy wedi cyflawni y drwg, a'i fod wedi cael ei orchymmyn i'w grogi? Gan fod y dihenyddiad etto heb gymmeryd lle, gall gael ei chyflawni ar yr amser appwyntiedig, neu ei gadael heibio fel y gwelo y brenhin yn addas, Gall cwyllys dyn effeithio ar bethau i ddyfod. Ond ni ellir gwneuthur yr hyn a aeth heibio, yn beth presennol neu yn beth i ddyfod.

A. Ac a ydych chwi yn cyfrif y gosodiadau hyn, a'r rhai yr ydych chwi yn ymdrechu argyhoeddi fy meddwl i ei bod yn ammhossibl achub bywyd Fauntleroy trwy roddi fy einioes i yn ei le, yn *egwyddorion annadleuadwy?*

O. Yn annadleuadwy, mor belled yn unig ag y maent yn unol a phob synwyr a deall. Yn ddiddadl gallai y llywodraeth, *yng nghyflawnder ei gallu* dderbyn y ddirprwy, ond beth y feddyliai y deyrnas yn gyffredin am dani; o leiaf y rhai deallus o honi? Buasent yn sicr o gasglu bod y Llywodraeth trwy y fath ymddygiad wedi rhoddi herr i bob deall, a rheswm, heb son am gyfraith a chyfiawnder.

A. Pa beth raid i mi gasgelu oddiwrth hyn?

O. Y casgeliad sydd yn canlyn yn naturiol ydyw, y dylech chwi adael heibio eich cais, a thrwy ddiwydrwydd yn eich galwad gadw y parch ag ydych eisioes wedi ei gyrraedd fel aelod defnyddiol cymdeithas.

A. I'm fy hun y perthyn y casgeliad yna, ond pa beth a ddylwn gasgelu mewn perthynas i chwi?

O. Yr hyn a fynnoch; ond os gwnewch gyfiawnder a mi, chwi a addefwch fy mod wedi llefari gyda bwriad da, ac yn ôl gallu goreu fy neall.

A. Gall hynny fod: ond Barchedig Syr, yr ydywf yn gwneuthur yn rhydd i ofyn, pa fodd y mae yn bossibl cysoni eich egwyddorion a'r grefydd Gristnogol?

O. Pa gyssylltiad sydd rhwng y grefydd Gristnogol a'n dadl ni?

A. Y cyssylltiad mwyaf agos yn ol fy marn i. Oblegid ar yr un egwyddorion ag yr ydych yn gwrthod i mi gael marw dros Fauntleroy, y gallech wrthod yr athrawiaeth fod Crist wedi marw ar y groes dros bechodau dynolryw.

O. Ac a ydych chwi, Syr, yn beiddio cydmaru eich hun a Iesu Grist, tragywyddol ac unig-anedig Fab Duw?

A. Na, Syr, nid wyf yn wir mor rhyfygus. Ond efe a ymddarostyngodd i roddi i ni siampl fel y caulynem ei ôl: ac fe ddywedodd ei Apostol Ioan, "Yn hyn yr adwaenom gariad, am ddodi o hono ef ei einioes trosom ni, a ninnau a ddylem roddi ein heinioes dros y brodyr." Y mae ein Hargluwydd ei hun hefyd yn dywedyd, "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod i un roddi ei einioes dros ei gyfeillion." Mae yr Apostol Paul hefyd yn dywedyd, "Oblegid braidd y bydd neb farw dros y cyfiawn: oblegid dros y da ysgrifydd fe feiddiai un farw hefyd; eithr y mae Duw yn cammol ei gariad, oblegid, a ni etto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni."

O. Yr ydych yn camsynied pan yr ydych yn cyfleu yr ysgrythyrau yna at'och eich hunan. Chwi allwch mewn llawer ffordd ddangos eich cariad, hyd y nod mor bell a rhoddi eich einioes "dros y brodyr," wrth ddwyn ymnlaen eu lles, neu eu diogelwch personol mewn awr a berygl; ond oddiar y rheswm a ddangoswyd eisioes ni chaniateir i chwi, llawer llai y gofynir gennych, i roddi eich bywyd i lawr dros droseddwr condemniedig. Heb law hynny, yn gymmaint ag i chwi gynnyg cuddio eich cymmygiad byrbwyll a rhyfygus o dan fantell yr ysgrythyrau, cofiwch, Syr, pa beth a ddywed St. Pedr, "Ond na ddioddefed neb o honoch fel mwrddwr neu leidr neu ddrwg weithredwr." Yn awr, Syr, pe byddai i chwi ddioddef yn lle Fauntleroy, byddech yn dioddef fel drwg weithredwr, a hwnnw nid o râdd gyffredin.

A. Ond er i mi ddioddef trosto ef, ni byddwn yn wir euog, ond byddwn yn unig yn dangos siampl o gariad, yr hwn ni ellir ei ragori, ac yn y modd hwn, mor belled ag y buasai yn fy ngallu, buaswn yn dilyn siampl Iesu Grist.

O. O! Eithafoedd rhyfyg!! Pa fodd y beiddiwch, Syr, i gydmaru eich hun ac ef? Ganddo ef yn unig yn oedd meddiant i roddi ei einioes; ac i'w chymeryd drachefn. Ond gadewch i mi ddywedyd wrthych, Syr, nad yw eich einioes gennych chwi i'r diben i ymadael a hi pan y gweloch yn dda. Ni chaniateir i chwi gan gyfreithiau Duw na dyn ei rhoddi hi i lawr, mor fynych ag y mynoch. Beth, Syr, a gyfiawnhaech hunan-leiddiad?

A. Na atto Duw.

O. Beth arall ydych yn ei gymmyg wrth farw dros Fauntleroy? Ai nid math o hunan-leiddiad ydyw? Hunan-leiddiad hefyd ag na feddwch ar gaiedrwydd digonol i'w gyflawni a'ch dwylaw eich hun: ond chwi fynnwch gael y *gyfraith yn gyfrannog o'ch drwy*, ac wrth geisio cyfiawnhau eich hunan yr ydych yn bwrw i lawr eich deall, ac yn gŵyr-droi gair Duw. Gadewch i mi ceiriol arnoch, Syr, pan yr eloch adref, i geisio maddeuant gan Dduw a'ch Iachawdwr, a gweddio ar i chwi gael eich goleuo yn well a'r doethineb hwnnw yr hwn sydd yn dyfod oddi uchod, fel y galloch, o hyn allan, *yn ol yr egwyddorion Cristnogol* WEITHREDU YN GYFIAWN, CARU TRUGAREDD, AC YMOSTWNG I RODIO GYDA DUW. Exit.

Angelini rhyngddo a'i hunan.

Wel dyma y peth rhyfeddaf a welais i ar y ddaear.

IOAN A PHEDR.—DAMMEG.

Ar ryw ddiwrnod yr oedd Ioan a Phedr yn eistedd ynghyd; ac yr oeddent yn ymddiddan ynghylch yr ams r oedd wedi myned heibio, pau oedd yr Arglwydd etto yn rhodio yn eu plith; a digwyddodd iddynt siarad am yr eneiniad yn Bethania.

"Oni wyddost," ebe Pedr, "pa mor daer yr edrychai ar Judas pan y dywedodd, 'Paham na werthwyd yr enaint hwn er tri chan ceiniog, a'i roddi i'r tlodion?' ond arnom ni efe a edrychai yn garedig, ac etto yr oeddem ni yn cymeradwyo geiriau Judas!"

Yna yr atebodd Ioan, "Mi a ofynais wedi hynny i'r Athraw ynghylch y peth hyn, ac efe a ddywedodd wrthyf, 'Chwychwi a lefarasoch ar fai, ond yn symlrwydd eich calonau y gwnaethoch, yn uniawn—fel yr oedd yn eich meddwl! Pa ham, gan hynny, y digiwn wrthych, ac nid, fel o'r blaen, eich hyfforddi mewn addfwynder? Ond yr oedd y llall yn ymddifad o'r pennaf o'r rhinweddau, Gwirionedd!'"

"Ac oni ddarfu iddo," chwanegai Ioan, "yn fuan wedi'n fradychu yr Athraw â chusan?"

Felly y llafarai y disgybl anwyl. Ond y deigrau gloyw a safent yn llygaid Pedr; oblegid yr oedd yn cofio iddo yntau, hefyd, fod unwaith yn anffyddlon i'r gwirionedd.

KRUMMACHER.

DUW, A'I DDIBENION YN OL EI AIR.

MR. YMOFYNYDD,—Mae Mr. Evans o Lambedr, yn ail adrodd ei farn, am pa beth ellir brofi oddiwrth yr hyn a elw ef y "perffeithderau dwyfol," "gan nad ydynt yn ein cynysgaethu a Data, oddiwrth ba un [oddiwrth y rhai] y gallwn gyfrif gyda chywirdeb sefyllfa ddyfodol pechaduriaid anedifeiriol." Dywedais o'r blaen, na ellir dim profi ychwaneg oddiwrth briodoleddau Duw, nag mai CABLEDD ar gariad Duw yw dywedyd, nad diben da fydd ganddo wrth geryddu dyn. Yr ydwyf yn cytuno a Mr. Evans, nad oes rwymau ar Dduw i'n galw ni i fywyd yn ol angau: ac âf ym mhellach, a dywedaf, nad oes arno ddim *rhwymau, i wobrwyo'r cyfiawn:* ond o'i gariad, y mae wedi addaw gwynfyd diddiwedd i'r cyfiawnion; er mai gweision anfuddiol y fyddant wedi bod: na, na, "Rhodd Duw yn bywyd tragywyddol:" ie, *rhodd cariad yw.* Cyn wired a hynny, nid oes dim rhwymau ar Dduw i adgyfodi'r annuwiolion, na'u *cospi* ychwaith; ond y mae cariad yn ei rwymo, o *gospi*, i wneuthur hynny gyda *diben da.* O gospi, y mae "*doethineb yn gwaeddi, a deall yn llefain,*" am gael gweled amcan *daionus* yn NOLL weithredoedd Duw. Rhaid i mi i ddywedyd fy mod o'r farn, nad yw Mr. Evans erioed wedi darllen yr hyn a ysgrifennais ar "Anfeidroldeb drwg pechod;" nac y chwaith, yr hyn a ddywedais,* gyda diben i ddangos, "paham y mae pechod o dan lywodraeth bod o anfeidrol gariad." Nid iawn i mi i ail adrodd y peth sydd argraphedig cisioes yn yr Ymofynydd. Os ydyw Mr. Evans am ddangos tegwch, disgwylir arno *i ddarllen* yr hyn a ddywedodd ei wrthwynebydd; a cheisio gwrth ddywedyd *wedi'n.* "Yr wyf yn credu," meddai ef mewn mau arall, "mai amcan

---

* Gwel rystiolaeth llyfr natur am Dduw yn yr Ymofynydd yn ôl unol o Rag. 1847, hyd Mehefin. 1848.

da fydd gan Dduw yn hyn, [adgyfodi pechaduriaid] ond yr ydym i ystyried Duw dan y cymmeriad o lywodraethwr moesol, &c." Hynny yw, (yr wyf yn bwrw) yr ydym i ystyriaid y gall *Duw da* fod yn *anfeidrol ddrwg fel llywodraethwr moesol!!* Pan y cafodd Duc Caerefrog gynt ei feio am *reyn*, ac yntau yn Esgob; dywedodd mai fel milwr; ac nid fel Esgob, yr oedd ef yn rhegu; ond methodd roddi atteb, pa le y byddai yr Esgob, pan y byddai y milwr rhwng y Diawlaid yn brwlian am regu. "Dylai pechaduriaid ystyfnig gael eu torri ymaith o gymdeithas y nefoedd" meddai Mr. Evans: dylent bid sicr, os na *all* Duw eu *gwella*; ond Duw yr Armin yw hwn yn ymlâdd am fyned a'i blant adref; *weithiau i lawr ac weithiau i fynu.* Mae yndd o gariad *tad;* a gwendid *hewaint*, yn teimlo "*ceiliog y rhedyn yn faich.*"

Nid wyf yn gweled fod eisiau i mi wneuthur dim sylw ar yr hyn sydd gan Mr. Evans o waith y "Duwinyddion," y mae ef yn eu hail adrodd; ond os einioes a gaf, yr ydwyf yn bwriadu anfon i'r Ymofynydd, rai llythyreu ar yr athrawiaeth o Ewyllys rydd, ac Angenrheidrwydd; ac yna ceir myned i'r ddadl mewn trefn.

Pwy ydoedd y *sophist* arwynebol a ysgrifennodd y *syllogizm* fu Mr. Evans yn ei darllen, nis gwn; ond hyn sydd amlwg, nad ydyw, os *y cafodd chwareu teg*, ddim yn deall beth y mae philosophyddion yn ei feddwl wrth ddywedyd, "achos yr achos, yw achos yr effaith." Nid oedd dyn ond offeryn Duw yn peri bodoliaeth ei blentyn. Duw ydyw Creawdwr a chynnaliwr pob dyn. Duw sydd yn nerthu braich y llofrydd; a phe bai ond darfod ei gynnal, byddai yn sicr o syrthio i'r ddaear mewn llai nag eiliad amrant. Wrth hyn gall wella'r *camsyniaid* a wnaeth, *wrth roddi ewyllys rydd i'r Armin*, yr hon sydd yn ei alluogi i fyned yn rhy galed i'w Dduw. Mae pob tad, ar ôl rhoddi y gauwyll yn llaw ei blentyn, yn gofalu, na chaffo losgci ei hunan a hi, nes y bydd yn ddigon hên i ddysgeu trwy brofiad. "Nid wyf yn dewis" medd Mr. Evans "gwneuthur chwaneg o *gomment* ar hyn, rhag i ddysgyblion uniciithog Mr. Jones ganfod *anonestrwydd*, neu dywyllwch eu hathraw." Ang'hofiodd ef ei fod wedi addaw peidio priodoli amcanion *drwg* i'w wrthwynebydd wrth ddechreu y ddadl.

Mae Mr. Evans wedi camsynied pan y mae yn dywedyd nad ydwyf wedi "dantio" ar y cabledd yn erbyn yr "Ysbryd Glan." Anfonais fy mhregeth ar hwnnw iddo, a gwyr yn awr yn well; os *ydyw wedi gweled yn addas idd ei ddarllen.*

Ydwyf, &c.
J. Jones, *Aberdâr.*

SYLWADAU AR LYTHR D. L. EVANS, AR Y GAIR COLASIS.

Mr. Ymofynydd,—Ni pherodd ymosodiad Mr. D. L. Evans arnaf, yn eich rhifyn diweddaf gymmaint o syndod i mi, ag a all llawer ei feddwl; oblegid ymddengys nad ydyw yn cael ei argyhoeddi a'r un rhesymmau a dynion ereill. Er siampl. Dywed wrthym yn hanes bywyd y Parchedig Thomas Evans, yr hwn a ysgrifennodd yn y rhifyn am Medi, 1848, fod y *Cyfammod Newydd* yn ymddangos iddo ef yn ffug disail, er ddarllen hanes *gwrthiau* Crist, nes iddo ei fanawl chwilio yn yr iaith Roeg.

Yr ydoedd yn meddwl fod colasis* yn arwyddocau, cerydd er gwellâd, nes i *mi* i ysgrifennu ei fod; ond yn awr, y mae yr ammeu hynny. Têg iddo gael llefaru yn ei iaith ei hun. "Cyn i Mr. Jones, Aberdâr" meddai ef "gyhoeddi ei ddarlithiau

* Yy ydwyf yn arfer C yn nechreu colasis, am y gwyr pob *Cymro* nad oes K yn y Gymraeg.

ymorphwyswn fel llawer yn ddifeddwl, ar gywirdeb sylw awdwyr yr *Improved Version*, ar y gair kolasis * * lle y dywedir 'Meddwl priodol y gair a gyfieithir yma yw cosp yn cael ei gweinyddu er mwyn llês y troseddwr.' Os nad wyf yn camsynied mae y nifer liosoccaf" [luosoccaf] "o'r dysgedigion Undodaidd yn Nghymry a Lloegr, a Simpson a Dr. Southwood Smith yn eu plith yn cytuno a'r dyb hon yn nghylch y gair kolasis." Ond wedi i Mr. Jones o Aberdâr ysgrifennu, canfu Mr. Evans, mai clwpaniaid ydoedd Belsham, a'r lleill, a fuont yn llafurio i gyhoeddi yr *Improved Version*; ac mai ffol ydoedd Simpson o'r Bath ar ei bwys ef; er ei bod yn beth tebyg, eu bod wedi darllen mwy o Roeg, nag a welodd Mr. Evans yn ei fywyd. Pa beth bynnag am hynny, ymddengys yn annichonadwy, y buasai i Dr. Magee (yr hwn a gafodd ei wneuthur yn Esgob Raphoe, am ei fawr *zeal* i waradwyddo'r Undodiaid) i adael i haeriad "awdwyr yr *Improved Version*," ymddangos o flaen y byd, heb ei ddefnyddio, i ddangos anwybodaeth Mr. Belsham, &c. oni baasai ei fod yn gwybod yn dda, mai "cerydd er lles y troseddwr," ydyw *ystyr briodol* y gair colasis. Ni allaf gredu ychwaith, y cawsai John Simpson lonydd, pe buasai ef y dyn *byrbwyll*, y mae Mr. Evans yn ei gymmeryd ef, ar yr amser yr oedd dynion yn cael eu gwneuthur yn Esgobion, am ysgrifennu yn erbyn yr Undodiaid. Ymddengys fod yr *Eclectic Review* yn methu gwadu *universality of the concession*, pan y bu yn adolygu *Smith's Illustrations of the Divine Government*: ac yr wyf yn methu a chael allan, fod Dr. Jonathan Edwards yn ei *Eternity of Hell Torments*, yn gwadu nad *ystyr briodol* y gair colasis yw, cerydd gyda diben da; ond gan nad yw ei waith o hyd i mi, nid wyf yn gallu rhoddi ei sylwadau yma. Mae hyn yn annymunol am mai efe (yn ôl barn y byd) ydyw y galluocaf, a ysgrifenodd ar y ddadl.

Wedi ysgrifennu, *nid ydwyf yn sicr gyda pha amcan*, cyfaddefa Mr. Evans, nad oes ganddo ddim "digon i brofi beth yw ystyr y gair colasis." Oni fuasai yn gallach iddo dewi, nes gallu boddloni *ei hunan* o leiaf yn hyn, na thrîn y dynion galluoccaf a fu ym mhlith Undodiaid Lloegr, gyda chymmaint o ddiystyrwch? Gellid meddwl, ei fod yn ambell i linell, am haeru, nad ystyr briodol y gair ydyw cerydd, neu gosp gyda diben i wellhäu; ac felly, fod yr ysgrythyr *yn bendant* yn profi, mai bod ANFEIDROL DDIALEDDGAR yw Duw; ac mai dammedig yn ddiderfyn fydd holl ddynolryw, yng nghyd a'r Duw a'u creodd—bryd arall, y mae lle i gasglu, ei fod yn meddwl, mai un doeth, a da yw Duw; a bod yr ysgrythyr yn arfer y gair *colasis* i arwyddo attalfa, neu beri na byddo drwg mwy. Mae yn eglur i MI, mai yr ysgrythyr ddylai dorri pob dadl yng nghylch llywodraeth Duw: ac os ydyw y gair colasis, fel yr awgryma Mr. Evans, ambell waith yn arwyddo *dial gyda diben drwg;* ac ambell i waith cosp *ddialeddol*; ag y sydd yn ei *nhatur* yn annherfynol! yna têg yw casgelu, mai hyn ydyw ei ystyr, pan y byddo *aionios* yn cael ei arfer i osod allan ei barhäd; ac mai twyllo fy hun yr ydwyf, wrth gredu mai "CARIAD YW DUW." Mae Mr. Evans yn gofyn, pa le y mae *prawf* Dr. Southwood Smith, fod pawb yn addef, mai cosp er gwelläd ydyw ystyr *colasis*. Nid oedd Smith ym meddwl na ddylasai rhyw GYMRO, dysgedig, gael ei eithrio ganddo, wrth dywedyd "*It is universally allowed*," ond mae yn debyg mai ei feddwl oedd, fod ysgrifenwyr geiriaduron dysgeedicaf Cred; ac ereill, yn addef hynny; megis Schleusner yr hwn sydd yn cyfieithu *colasin aionion, supplicia aeterna, ceryddon gwastadol.*

Dywed Leigh, yn ei *Critica Sacra*, dan y gair Hebraeg, "Cola (unde côluô) clausit, conclusit, arcuit, coercuit, impedivit, cohibuit, inhibuit, prohibuit * * Cola est aliquem cohibere, a negotiis, factisque aliis impedire, quemmodo v. g. Abigail impediebat Davidem 1 Sam. xxv. 33, Sic cohibere pedem, Ps. cxix. 101, aut

labia, Ps. xl. 10. Speciatim usurpatur de cohibitione, aut inclusione in carcere quommodo, v. g. Zedekias, Jeremiam carcere cohibuit. Jer. xxx. 3, Geier in Eccles. viii. 8.

Dan y gair Cola yn Parkhurst's Hebrew Lexicon darllenir fel hyn, "In Kal, to restain, confine, * * * Hence *colados* to restrain." Mae yn eglur fod y dysgedigion uchod, y rhai oeddent Drindodiaid yr wyf yn meddwl, yn gweled fod *amcan da* yn ystyr y gair *colasis*.

Os gwyr Mr. Evans o Benybont, am un o'r Philosophyddion Groegaidd, sydd wedi arfer y gair *colasis am boenau diddiwedd*, efe a fydd yn sicr (*os nad wyf yn camsynied*) o nodi'r llinellau allan. Carwn yn fawr gael gwybod ganddo enw *un* sydd yn gwadu, nad yw colasis yn arwyddo cerydd er gwellâd. Y mae yn gofyn i ni, gydag ymchwydd, "A ydyw y Doctor [Smith] yn meddwl, yr addef y mwyrif," yr rhan amlaf y mae yn ei feddwl, "o esgobion, ac offeiriaid yr Eglwys sefydledig hyn." Ymddengys i mi, ei fod; a thecach gwaith fuasai i Mr. Evans, (*pe y beiddiai,*) i wneuthur yr ymosodiad hwn, ar y Doctor, yn Saisnaeg, nag mewn iaith, na fedr y Doctor ei deall: ac os chwilio meddwl y gair, *ac nid chwilio am fai lle na bo,* ydyw ei amcan; byddai yn ddoethach iddo ysgrifennu yn Saisnaeg, am ei bod yn eglur i bawb fod y Saison yn fwy galluog i'w addysgcu, na neb ym mynyddau Cymru, o'r rhai sydd yn gweled yr Ymofynydd. Beth ydyw enw *un* o'r Esgobion, sydd yn awr ar dir y byw, yr hwn sydd yn gwadu mai *cerydd er gwellâd, ydyw* yst yr *briodol* a *philosophyddaidd* y gair Colasis?

Dywed Mr. Evans fy mod wedi camddeall Grotius. Dichon fy mod. Am hynny, byddaf ddiolchgar am gael fy nhywys i'r iawn trwy gael gwybod enwau y philosophyddion, sydd yn galw *colasis,* ar gosp sydd yn tueddu i wellhâu, os *nad* ydyw Paul y cyfreithiwr, Plato a Plutarch yn eu plith.

Y mae yn amlwg fod Mr. Evans wedi fy nghamddeall i. Ni ddaeth erioed i'm meddwl i ddywedyd, mai *unig* ystyr y gair colasis ydyw cosp er llês; mwy nag mai *unig* ystyr y gair POBL ydyw dynion rhesymmol. Mae Soloman yn Diar xxx. 25, 26, yn dywedyd. *Nid yw'r morgrug* BOBL *nerthol etto y maent yn darparu eu llyniaeth yn amser haf. Y cwningod nid ydynt bobl rymmus, etto hwy a wnant eu tai yn y graig.* Pe bai i mi, neu rywun ar ol clywed Mr. Evans (mewn pregeth fel y dylai hi fod) yn adrodd geiriau Hosea, Fy mhobl a ddifethir o eisiau gwybodaeth, i ysgrifennu fod un rheswm, sydd yn ymddibynnu ar ystyr gair yn rhy ddibwys, am y dichon, yn ol ystyr y gair *pobl,* mai MORGRUG a CWNINGOD oedd y prophwyd yn ei feddwl, a allai neb gredu, nad cellwair y byddwn o ryw amcan nad yw dda, yn lle "cyflwyno yn OSTYNEDIG yr ychydig lucubrations hyn i ystyriaeth," darllenwyr yr Ymofynydd?

Yn ei sylw ar odre y ddalen y mae Mr. Evens yn dywedyd ei fod "o'r un farn a Mr. Jones ar ddiben Duw yn cospi yn y byd nesaf," hynny yw, pan y byddo pechaduriaid yn y *colasin aiunion*, mai ystyr y gair *colasin* hwnnw yw cerydd er gwellâd, ac mai hyn fydd amcan Duw wrth ei arfer!! O Rhyfedd!!!

Pa bae i Mr. Evans i dalu mwy o sylw i ystyr geiriau ar ôl eu cyssylltu (in sentences) perai lai o drafferth i rai heb law.

J. JONES, *Aberdâr.*

O.S. Nid ydwyf yn bwriadu gwneuthur un sylw ym mhellach o Mr. Evans, ysgrifened a fyno ar y pwngc.

BYWGRAFFIAD YR UNDODIAID BOREU.

LLYTHYR III.

SYR ISAAC NEWTON.

Yn nesaf daw dan ein sylw dywysog y philosophyddion, y mwyaf treiddgar ei gyrraeddiadau a welodd y byd erioed. Ganed y gwr mawr hwn ar ddydd nadolig 1642 (y flwyddyn y bu Galileo farw) ynWoolsthorpe yn swydd Lincoln, tan chwech milldir o Grantham. Hwsmon oedd ei dad, yn byw ar ei dyddyn a gafodd ar ol ei dad. Darlunir ef fel dyn gwan ei ddeall ac ansefydlog; bu farw dri mis cyn geni ei fab Isaac. Derbyniodd Isaac egwyddorion dysgeidiaeth dan ofal ei fam: ac er iddi briodi yr ail waith, bu yn ofalus iawn ynghylch dygiad ei mab i fynu. Cyn hir anfonwyd ef i ysgol ramadegol Grantham, lle y gosodwyd sylfaen dda i'w ddysgeidiaeth iaithyddol. Tra yn yr ysgol hon, dangosodd nad plentyn cyffredin oedd wedi ei'anfon yno i ymofyn am wybodaeth. Pan fyddai y plant eraill yn chwareu, yr oedd Isaac yn ymddifyru mewn gwneuthur patrynau melinau a pheirianau bychain. Gwnaeth *glock* dwfr o hen flwch; yr oedd y pinnau a ddangosent yr amser yn cael eu symmud gan ddernyn o bren oddifewn ar wyneb y dwfr, yr hwn a suddai i lawr fel y byddai y dwfr yn colli trwy waelod y blwch. Yr oedd rhywbeth yn fawr ynddo o'i fabandod: pan etto yn blentyn ieuange iawn yr oedd ganddo ffordd drwsgl i fesur nerth y gwynt, trwy sylwi faint ymhellach y gallasai neidio gyda'r gwynt nac yn ei erbyn, pan fyddai'n chwythu awel gref. Isaac bach! Dyma gyn-brawf o'r neidiau mawrion a roddi maes o law i fesur teithi'r ser, a chael allan y gyfraith sydd yn eu cadw yn eu llwybrau.

Wedi iddo adael ysgol Grantham, dygwyd ef adref, i ddysgu hwsmoniaeth, a'i alluogi, trwy hynny, i wneuthur y goreu o'i etifeddiaeth Ond canfyddwys yn glau, modd bynnag, nad oedd fawr cymmwysder ynddo at y gwaith hwn. Dan gysgod rhyw lwyn neu gilydd y caed Isaac yn darllen yn galed, pan y dylasai fod yn edrych ar ol yr anifeiliaid neu 'r gwasanaeth-ddynion Darllen llyfrau oedd ef o hyd, y rhai a ystyrid tuhwnt i'w gyrraeddiadau gan eraill, gan fesur ei alluoedd ef wrth yr eiddynt hwy eu hunain. Mae'n debyg ei fod, cyn hyn, wedi ei gosod i lawr fel rheol, fod yr hyn a allasai un dyn ysgrifenu, os ynddo ei hun yn ddealladwy, o fewn cyrraedd un arall i'w ddeall. Pan anfonwyd ef, un tro, i farchnad Grantham, i werthu cynnyrch y fferm, ble debygech y cafwyd Isaac? Nid yn y farchnad yn ceisio gwerthu ei nwyfau; nid yn derbyn ei dalu am danynt; gadawodd y gwerthu a'r derbyn y tal, a'r cyfan, i hen was ei dad, tra yr oedd ef, wrtho ei hun ar hen daflad wair yn gweithio gymmaint a fedrai wrth un o ddwfn destunau *mathematics*. Pan y cafodd ei ewythr ef yma, argyhoeddwyd ef nad oedd fawr diben ymdrechu attal ei alluoedd mawrion i weithredu, gan fod ei awydd am wybodaeth yn anorchfygol; felly caniatawyd iddo fyned yn aelod o Goleg y Drindod, ym mhrif athrofa Caergrawnt, yn y flwyddyn 1660. Yr oedd ef bryd hyn yn 18 mlwydd oed, a dechreuodd ei yrfa newydd gyda'r fath sêl, fel y gellsid yn hawdd ddisgwyl rhyw beth mawr oddiwrtho; ond, fel y cawn weled, gyrrodd ymhell heibio i ddysgwyliadau mwyaf brwd ei gyfeillion. Darfu i fywiogrwydd ei dalentau a'i ddiwydrwydd dynnu sylw y *mathematicians* mwyaf enwog yn y brif ysgol, ymhlith y rhai oedd Dr. Barrow. Parhaodd y cyfeillgarwch, a ddechreuwyd yn y modd hyn rhwng y ddau ddyn enwog yma, hyd nes eu gwahanwyd gan law oer angeu.

Dechreuodd Newton ei fyfyrdodau gydag *Elements* Euclid; ond ni ddarfu i'r rhain ei gadw ef yn hir. Nid oedd un *Pons Asinorum* i Newton, dim rhwystr i luddias ei gynnydd am eiliad: dywedir, ar awdurdod nas gellir ei hammau, ei fod yn canfod gwirioneddau pob gosodiad, dim ond ei ddarllen ac edrych ar y *diagram* neu'r darlun. I Newton nid oedd gwirioneddau goruchel ac anhawdd *Geometry* yn gorwedd ar waelod y pydew; yr oeddynt megis ar unwaith yn ymbriodi a'i feddwl mawr ef, ac yn ei annog i fyned ymlaen at byngciau anhawddach gwybodaeth. Ar ol llaw, modd bynnag, yr oedd yn ddrwg ganddo na fuasai yn aros mwy wrth byrth gwybodaeth—na fuasai yn gorphwys ennyd yn rhodfeydd dysgeidiaeth i sylwi ychydig ar harddwch ac arderchawgrwydd y cynluniau a'r caerau, cyn myned tu fewn i'r llen;—na fuasai yn chwilio gyda mwy o fanyldra ac astudrwydd ddull Euclid o arddangos ei wirioneddau, a'r modd yr oedd wedi cyssylltu pob rhan o'i lyfr, fel ag i wneuthur rhes o wirioneddau i ymddibynu y naill ar y llall; a'r cyfan ar ddarluniadau a gwireddau. Yr oedd yn flim ganddo ,'ei fod wedi gwneuthur camsynied wrth ddechreu ei fyfyrdodau celfyddydawl, trwy astudio gwaith Des Cartes ac ysgrifenwyr alsawddol eraill, cyn talu i Elfenau Euclid y sylw hynny ag oedd yn deilwng i ysgrifenwr mor rhagorol."

Ar yr amser hwn yr oedd gwaith Des-Cartes mewn bri mawr, yr hyn a barodd i Newton ei astudio, gan dalu sylw ar yr un pryd i *Optics* Kepler ac Arithmetica Infinitorum Dr. Wallis, gan wneuthur diwygiadau

e nodiadau arnynt ar yml y ddalen, wrth fynfd ymlaen, yr hyn a wnai'n gyffredin wrth fyeyrio unrhyw awdwr. Gosododd traethawd Dr. Wallis ei ddyfais ar waith, ac yn eithaf tebyg mai hwn a'i harweiniodd at ei "*New method of infinite series and fluxions*," yr hwn a gyhoeddodd yn Lladin, ac a gyfieithwyd i'r Saes'neg yn 1736 gan Mr. Colson, ac a argraphwyd ganddo ynghyd a nodiadau ar yr holl lyfr.

Yn y flwyddyn 1664 cyfododd Newton ei radd o B. A, ac oeddeutu yr amser hwn y trodd ei sylw at ddiwygio'r *telescopes*. Yr oedd Des-Cartes, trwy dderbyn y meddwl cyffredin fod y goleuni yn gydrywiog, wedi cael allan, ar yr egwyddor hon, gyfreithiau gwrthdorriad, a daliai fod perffeithrwydd y *telescopes* yn ymddibynu ar gael allan ffordd i wneuthur gwydrau hirgrynog &c, Yn y flwyddyn 1666, gan hynny, cymmerodd Newton at y gorchwyl o lifanu gwydrau o wahanol ddulliau, heb gymmaint a dychymyg nad oedd y goleuni yn gydrywiog. Wedi methu mewn amryw dreialon, efe a brynodd wydryn trionglog *(prism)*; gyda bwriad i chwilio ymddangosiadau lliwiau, oedd Grimaldi wedi newydd gael allan. Ar y cyntaf, cafodd hyfrydwch mawr wrth ganfod tambeidrwydd hynod y lliwiau; ond wedi i'w syndod fyned heibio, a dechreu eu chwilio gyda manyldra philosophaidd, cafodd ei daraw a syndod wrth weled y lliwiau ar ddull hir-gul, y rhai a dybiai ef ddylasent fod yn gylchaidd *(round)*. Priodolodd y digwyddiad hwn ar y cyntaf i ryw amgylchiad damweiniol anadnabyddus iddo ef: ond, pan y cafodd fod yr effaith yn barhaus yr un peth ymhob prawf a wnai, aeth ymlaen yn ei ymchwiliad hyd nes y cafodd ffordd anfaeledig i brofi'r peth, yr hyn a achosodd ei "*New theory of light and colours*." Ni wnaeth y dyb hon ei foddloni ef, er mor anisgwyliadwy a rhyfeddol bynnag ydoedd, ond cymmellodd ef ymlaen i chwilio pa ddefnydd ellsid wneuthur o honi i ddiwygio'r *telescopes*, yr hyn oedd ei amcan benaf ef. Wedi iddo weithian gael allan mai nid cydrywiog oedd y goleuni, ond cymmysgedd o belydr, rhai yn fwy a rhai yn llai gwrthdorradwy na'u gilydd, cyfrifodd y gwallau oeddent yn cyfodi oddiwrth y gwahanol alluoedd gwrthdorriadol yma: a chwedi cael allan eu bod rai cannoedd o weithiau yn fwy na'r rhai a achosid gan ddull cylchog y gwydr, dechreuodd fyfyrio ar adlewyrchiad y goleuni yn ofalus. Cafodd ei argyhoeddi yn awr y gellsid dwyn y tremwydrau i'r gradd a fyn'sid o berffeithrwydd, pe gellsid cael sylwedd a gymmerai ei gaboli mor deced a gwydr, a'r hwn a adlewyrchai gymmaint o oleuni ag a drosglwyddai gwydr, ac y gellsid cael allan ffordd i roddi llun hirgrwn iddo. Nid oedd yn meddwl y gallesid cael y pethau hyn; dychymygion oeddent oll yn ei olwg bryd hyn. Tra yr oedd yn myfyrio'n ddwys ar hyn, torrodd y plâ allan yng Nghaergrawnt yn 1665, a gorfu arno i adael ei fyfyrdodau a'i lyfrau, a chilio i'r wlad.

O'r amser hwn, am yspaid dwy flynedd yn agos, cafodd Newton ei gadw o gyfeillach y cyfryw a allasent fod yn gynorthwy iddo yn ei fyfyrdodau; ond ni adawai ei feddwl bywiog a threiddgar iddo dreulio'r amser hwn heb ymwneud a phyngciau pwysig philosophyddiaeth. Yn wir yn y lle hwn y darfu i'r meddwl ymgynnyg iddo a fu'n achos o'i "*System of the World*," yr hyn yw prif destun ei *Principia*. Pan oedd yu eistedd wrtho ei hun, yn yr ardd gwelodd afal yn syrthio oddiar y pren, yr hyn a arweiniodd ei feddwl at dysgyrchiad; ac wrth fyfyrio ar weithrediad yr egwyddor hon, dechreuodd ystyried, gan nad yw'r gallu hwn yn cael ei leihau mewn un mesnr canfyddadwy i ddyn y man pellaf o ganol-bwynt y ddaear ag y gellir esgyn iddo; nac ar ben y tyrrau a'r mynyddau uchelaf, yr oedd yn natturiol iddo gasglu fod y gallu hwn yn cyrraedd lawer ymhellach nag y tybid yn gyffredin. "Pam lai," 'ebefe," nad yw 'n cyrraedd y lleuad? ac os felly, y mae'n rhaid ei fod yn effeithio ar ei symmudiad. Efallai ei bod yn cael ei chadw yn ei llwybr ganddo. Er nad yw gallu dysgyrchiad ddim yn cael ei leihau mewn un mesur teimladwy gan yr ychydig bellder a allwn ni ei gyrraedd o ganol-bwynt y ddaear, er hynny y mae'n beth digon possibl fod y gallu hwn yn gwahaniaethu'n fawr, mewn man mor uchel a'r lleuad, oddiwrth yr hyn ydyw yma. Gwnaeth y cyfrifiad; ond oherwydd fod ei seiliau yn anghywir, trwy dybied mai 60 milldir oedd mewn gradd yn lle 69½, methodd y cyfrifiad atteb ei ddisgwyliadau. Casglodd gan hynny fod yn rhaid fod rhyw alluoedd eraill gyda dysgyrchiad yn effeithio ar y lleuad; oherwydd hyn, rhoddodd heibio am amser bob meddwl ar y pwngc. Ar ei ddychweliad yn ol i Gaergrawnt, dewiswyd ef yn "Fellow o'i goleg, a chyfododd ei rádd o M· A. Yr oedd ef yn awr yn awyddus i ddiwygio'r *telescope*, ac yr oedd wedi gwneuthur paratoiadau ar gyfer hynny, pan y cafodd ei rwystro gan dyledswyddau proffeswriaeth *mathematics*, yr hon swydd a roddodd Dr. Barrow i fynu iddo ef yn 1669.

Wedi cymmeryd y swydd hon arno, gwnaeth ei ddarganfyddiadau yn *Optics* yn destun ei ddarlithiau am y tair blynedd cyntaf ar ol ei dewisiad i lanw'r gadair gelfyddydawl; a chwedi iddo ddwyn ei dyb ynghylch golcuni a lliwiau i radd helaeth o berffeithrwydd, cyflwynodd hi i'r *Royal Society*, o'r hon yr oedd ef yn aelod, a chyhoeddwyd hi yng ngorchwilion y gymdeithas am fis Chwefror 1672. Achosodd ei chyhoeddiad ddadl a barodd gryn anesmwythder i'w feddwl, fel y penderfynodd beidio cyhoeddi dim ar y pwngc o leiaf am amser; ac felly efe a roddodd heibio'ei *Optical Lectures*, er eu bod, mewn gwir, yn barod i'r wasg. Cyfarfu ei "*Infinite series*," a'r un dynged. Trôdd ei feddwl o'r

diwedd at ei *Delescope*. ac wrth sylwi nad, oedd angenrheidrwydd anhepgorol i'r gwydrau fod yn hir grwu, gorphenodd un arall. Attebodd hwn ei amcan mor dda, fel y canfyddodd trwyddo leuadau Iau, a gwahanol agweddau Gwener, er nad oedd oud chwech modfedd o hyd i gyd. Anfonodd y *telescope* hwn i'r *Royal Society*, ar eu cais, ynghyd a desgrifiad o hono a gyhoeddwyd yng ngorchwyl y Gymdeithas am fis Mawrth 1672.

Yn y flwyddyn hon cyhoeddodd Mr. Newton yng Nghaergrawnt "Bernardi Varenii Geographia Generalis." O'r amaer hwn hyd 1679, cynhaliodd ein hawdwr gyfrinach trwy lythyron a Mr, H Oldenburg, ysgryfenydd y *Royal Society*, Mr.Flamsteed, Mr-John Collins, a Dr. Halley. Ar yr amser yma, ar gais Leibnitz, eglurodd ei ddyfais ynghylch *Infinite series*, a dangosodd faint oedd ef wedi ddiwygio arno trwy ei gynllun o *fluxions*, cafodd y llythyrau hyn eu gosod yn *Commercium Epistolicum* Collins a argraphwyd yn y flwyddyn 1712. Yn 1676-7 cafodd Newton allan y gosodiad goruchel, fod yn rhaid i blaned, trwy allu canol.gyrchol yn gweithredu yn ol ysgwar y pellder, droi mewn cylch hir-grwn o amgylch canol-bwynt y gallu wedi ei osod yn y cynnullfan iselaf, a desgrifio gwyneb fesur cydradd a'r amserau trwy baladr wedi ei dynu o'r canol-bwynt hwnnw. Oddeutu'r flwyddyn 1680 gwnaeth lawer o nodiadau seryddawl ar y seren gynffonog a ymddangosodd y flwyddyn honno: yr hon dros amser mawr a ystyriai yn ddwy seren ac nid yr un, yn groes i dyb Mr. Flamsteed. Yn nesaf adnewyddodd ei ymchwiliadau am y lleuad.

Yr oedd Picart wedi mesur gradd o'r ddaear yn 1679, a thrwy ddefnyddio ei fesurau, arweiniwyd Newton i'r casgliad, fod y lleuad yn cael ei dal yn ei chylchdro gan ddysgyrchiad yn unig, ac yn ganlynol fod ei allu yn lleihau mewn cyfartaliad deublyg i'r pellder, fel yr oedd o'r blaen wedi tybied. Oddiwrth hyn cafodd allan mai hir-grwn yw'r llinell o ddesgrifir gan gorph yn syrthio, a'i gynullfan yng nghanol-bwynt y ddaear; sefydlodd trwy hyn fod y prif blanedau yn troi yn y cyfrywlwybrau ag oedd Kepler wedi ddychymyg, ac felly cafodd yr hyfrydwch o weled fod yr hyn a gymmerodd mewn llaw o gywreinwydd ar y gyntaf wedi atteb y dibenion mwyaf pwysig. Ar hyn tynodd a phrofodd tua 12 o osodiadau perthynol i symmudiadau y prif blanedau oddeutu yr hanl, yr rhai a gyflwynodd i'r *Royal Society* yn 1683. Ymhen ychydig ar ol hyn, cymmerodd at y gwaith o orphen ei "Principia," yr hwn a argraphwyd dan ofal Dr. Halley ac a gyhoeddwyd yn yr haf 1687 dan y teitl "Philosophiæ naturalis Principia Mathematica," neu egwyddorion celfyddydawl philosophyddiaeth. Nid oedd gan Newton ddim defnyddiau, ond yr ychydig osodiadau crybwylledig, at gyfansoddi'r gwaith ardderchog hwn, yr hyn a gyflawnodd mewn yspaid blwyddyn a haner yn unig: aeth trwy lawer o argraphiadau, er na chafodd, ar y cyntaf, y gymmeradwyaeth oedd yn haeddu. Un rheswm am hyn oedd, fod Des Cartes ar y pryd mewn llawn feddiant o'r byd, ac ystyrid ei philosophyddiaeth ef yn fwy addas i amgyffredion cyffredin. Y mae'r Principia o'r tu arall yn anhawdd iawn mewn llawer o fannau, ac y mae'n rhaid bod dyn yn *fathematician* da cyn y gall feddwl dilyn Newton yn ei brofion, a dyfod yn feistr ar y drysorfa anferthol o wybodaeth a gynnwysa'r Principia. Pan, modd bynnag, y daeth gwerth y llyfr yn adnabyddus, aeth ei gymmeradwyaeth yn gyffredinol, yr hon oedd hyd yn hyn wedi bod yn araf a chynnil, ac nid oedd dim i'w glywed mewn un man ond syndod oherwydd yr hyn a ymddangosai yn waith dealldwriaeth goruwch-natturiol. "A ydyw Mr. Newton yn bwytta, yn yfed, neu'n cysgu, fel dynion eraill?" ebe'r Marquis del'Hospital, un o fathematicians goreu ei oes, "yr wyf fi yn ei ddarlunio i mi fy hun" ebefe "fel angel nefolaidd, yn hollol rydd oddiwrth sylwedd."

O. Evans.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

CWRDD CWARTER Y PASG.

Syr,—Dymunaf arnoch hysbysu y bydd Cyfarfod Cwarterol Undodiaid y Deheubarth i gael ei gynnal dydd Mercher a dydd Iau, y 3edd. a'r 4edd. o Ebrill yn yr Onnen-fawr, ger Llandilo.

Bydd y cyfarfod, prydnawn dydd Mercher, i ddechreu am 4 o'r gloch. Boreu dydd Iau, am 10. Mr. P. Joseph, Ciliau, i bregethu: pwnge y gynnadledd, "Beth yw Crefydd?"

T. C.

Llandilo Chwef. 18. 1850.

Y SENEDD YMERODROL.

Ymgyarfu y Senedd dydd Iau, Ionawr y 31ain.

Yn Nhy yr Arglwyddi traddodwyd araeth y Frenhines gan y *Lord Chancellor*. Yn yr araeth, fel y disgwyliasid, nid oedd dim ag sy'n galw am sylw neillduol. Wrth ei chyfansoddi gofalodd y Weinyddiaeth i beidio â rhwymo eu hunain wrth unrhyw drefn o fesurau tuag at esmwythau'r wlad. Modd bynnag ymddengys eu bod yn benderfynol yn erbyn ail osod treth ar yr yd, o un math. Dy-

wed "fod yn ddrwg gan y Frenhines weled cymmaint o achwyniadau oddiwrth dyddynwyr a pherchenogion tiroedd o amryw barthau o'r wlad: ei bod yn flinderus arni fod un gyfran o'i deiliaid yn dioddef caledi; ond ei bod yn achos o wir lawenydd iddi, fod llewndid o ymborth ac angenrheidiau bywyd o fewn cyrhaedd y corff mawr o'i phobl." Ond, gyda hyn, nid oes yngan gair am y cyfiawnder o ostwng cyflogau swyddogion y Llywodraeth, yn gyfattebol i'r gostyngiad sydd wedi cymeryd lle yn mhrisoedd ymborth ac angenrheidiau eraill. Tebyg eu bod yn ystyried y bydd yn ddigon cynnar i wneud hyny, pan y byddo llais y wlâd yn eu gorfodi Nid yw yn debygol y bydd i'r *Financial Reformers* i diccio i gael eu hamcan hyd nes caffont berchenogion y tiroedd i ryfela yn eu rhestri.

Fel y mae'n arferol ar agoriad pob esteddfod, yn fuan wedi traddodi'r araeth Frenhinol yn ngwydd y ddau dy, aethpwyd i gyttuno ar annerchiad mewn attebiad i'r araeth. Ac yn y ddau dy darfu i'r *Protectionists* gynnyg *amendment*, i'r perwyl "fod y caledi sy'n bresennol ar Amaethwyr y wlad wedi ei achosi gan ddilëad cyfreithiau yr yd." Ond methu yn eu hamcan a wnaethant, yn y naill dy fel y llall. Yn Nhy yr Arglwyddi cafwyd

dros yr *amendment* . . .	103
yn ei herbyn . . .	152
Mwyrif o blaid y Llywodraeth .	49

Ond yn Nhy y Cyffredin, ar ol dadleu maith ni chafwyd dros yr *amendment* ond 192

Yn ei herbyn	311
Mwyrif	119

Fel yma ymddangosai, fod y Seneddwyr presennol yn benderfynol ar fod cyfreithiau yr yd wedi myned tuhwnt i'w galw yn ol.

Ond bu y *Protectionists* yn fwy llwyddiannus ar y cynnygiad o wnaeth Mr. Disraeli y 19eg. o Chwefror, er mwyn esmwythàu ar y dosparth amaethyddol: sef, fod i ddwy filiwn o'r trethi a delir yn bresennol oddiar dai a thiroedd, i gael eu talu o hyn allan o'r *Consolidated* Fund.

Dros y cynnygiad yr oedd . .	252
Yn ei erbyn . .	273
Mwyrif o blaid y Llywodraeth, dim ond	21

FFRAINGC

Y mae yn amser llwyddiannus ar fasnach yn Paris ac yn y taleithiau—y crefftwyr gan fwyaf mewn llawn waith, ac yn gallu ennill bywioliaeth gysurus. Ond yr amaethwyr, yn Ffraingc fel yn Mhrydain, ydynt yn achwyn ar wasgfa yr amser, gan fod prisoedd y nwyfau a werthant wedi gostwng i raddau anghyffredin. Bu cryn ofn nad aethai y 24ain. o Chwefror, dydd Coffadwriaeth y Chwyldroad, heibio yn dawel. Dywedir fod y Llywydd yn ennill ffafr gyda y rhan amlaf yn yr Assembly, er fod M. Thiers wedi gwneud ei waethaf i'w rwystro.

PRWSSIA.

Llwyddodd y brenin o'r diwedd i gael y Senedd i gydsynio a'i gâis mewn pob peth o bwys perthynol i'r *Constitution* Newydd. Y mae yr oll o *Germany* yn bur dawel ar y pryd hwn. Ofnir y bydd i'w rhyfel â Denmarc ynghylch Schleswig i ail-ddechreu. Y mae Prwssia ac Awstria yn chwanegu at eu byddinoedd: yr esgus a roddant am hynny yw, i fod y gwerinwyr yn bygwth gwneud terfysg yn Ebrill nesaf.

SWITZERLAND

Y mae llywodraethau Rwssia, Awstria a Phrwssia wedi bod yn bygwth y Cantons â'u dialedd os na wnaent yrru i maes o'u gwlad y ffoaduriaid o Poland, Hungary, a Germany ag oeddent yn llechu yno. Deallwn fod y Cantons wedi gorfod plygu rhag ofn; a bod amryw o'r ffoaduriaid wedi dyfod trosodd i Loegr.

GROEG

Yr ydym ar y pryd hwn mewn rhyfel à'r Groegiaid. Mae'n debyg bod y llywodraeth yno ryw fodd wedi rhoddi sarhâd i faniar Lloegr, ac hefyd yn pellu talu eu dyled i ni. Mewn canlyniad mae'r llynges o dan Syr E. Parker wedi cau i fynu eu porthladd, a chymeryd meddiant o'u llongau-rhyfel ynghyd a, dwy ynys fechan y rhai a honnir eu bod o iawnder yn perthyn i Brydain Fawr. Y mae y brenin Otho hyd yma yn gwrthod plygu

GOHEBIAETH.

AMDDIFFYNIAD BRYCHAN.

Mr. Ymofynydd,—Da chwi, byddwch garediced a hebgor rhyw gongl o'ch misolyn llachar i hysbysu eich gohebydd parchus o'r Gyfeillion, ynghyda phawb eraill a garant wirionedd, fod y llinellau o ymddangosodd yn eich rhifyn am fis Ionawr, o eiddo fy nghyn-athraw byth-glodus Iolo Morganwg, air y' ngair, a llythyren a llythyren, fel y cefais i hwynt gan y bardd D. Morris, Eiddil Gwent, yn meddiant pa un y mae y wreiddysgrif fel y daeth o ddwylaw y pencerdd mawr ei hun, heb y *caboliad* lleiaf er gwell nac er gwaeth arnynt, yr hyn a ga y neb a fyno weled. Hefyd, methwyf yn lân loyw a chanfod yr ANFERTHWCH na'r BEIAU y sonia Mr. Davies am danynt, yn y llinellau dan olwg. Ond bydded hyny fel y bo, digon imi yw eu bod

wedi ymddangos yn y dullwedd y daethant gyntaf y dan law IOLO ei hun, heb y dim lleiaf o *gaboliad* nac arall arnynt. Blin, a blin iawn genyf feddwl fod MR. DAVIES yn fy lled-gyhuddo o *anferthu* gwaith fy nghynathraw goleufarn ac awenbwyll. Efe a ddylai wybod fod genyf ormod o barch, i bob llinell o'i waith, i feddwl newid cymaint a llythyren o hono, y naill ffordd na'r llall. Hyna yn fyr oddiwrth Hen ddysgybl IOLO MORGANWG.

J. DAVIES *Brychan.*

Tredegar, Chwef. 1850.

O.Y. Dan ar-olygiaeth Ab IOLO y daeth yr ail ran o "SALMAU YR EGLWYS YN YR ANIALWCH" o'r wasg.

YSGOL-FEISTR AMERICANAIDD CYWRAIN.

Cymerwyd yr hanesyn hynod a ganlyn allan o un o Newyddiaduron Caerefrog Newydd, ac ymddangosodd wedi hynny yn yr "Amserau." Nid ydyw yn llai dyddorawl o herwydd hynny. Dichon nad oes nemawr o ddarllenwyr yr "Ymofynydd," wedi ei weled oll.

Ydwyf yr eiddoch, &c.,

Pentregwenles. RHYDDERCH FARFGOCH.

"Mi a glywais am un o'ch pwyll-gorau yn ymyru gyda dialedd, ac yn troi un Ysgolfeistr ymaith am wneuthur rhyw bethau anferth wrth ddarluno yr wers. Ymddengys ei fod wedi enill teimladau ei ysgolheigion o blaid athroniaeth naturiol, ac wedi ceisio cael rhyw offerynau priodol; ond dywedwyd wrtho am ofalu am yr *addysg*, a gadael y *nonsense.* Ond heb ddigaloni dim, efe a geisiodd rhai offerynan ei hunan; a dywedodd wrth y bechgyn, os deuent a llygoden neu ddwy iddo dranoeth, y dangosai yntau iddynt effeithiau y NITROGEN GAS arnynt. Y diwrnod a ddaeth, ond cafodd ef ei geryddu gan y pwyllgor, oblegid yr oedd y bechgyn yn eu hawydd i ddysgu, wedi bod ar eu traed trwy y nos, yn llygota i'w mheistr, ac wedi aflonyddu'r ty yn enbyd iawn. Addawodd yntau i ymddwyn yn well; ond pan ddaeth at seryddiaeth, efe a gyflawnodd un o'r troseddau mwyaf arswydus—oblegid, gan na feddai *orrery*, (peiriant i arddangos y gyfundrefn) efe a gymerodd y bachgen mwyaf yn yr ysgol, ac wedi ei osod yn y canol i gyneirchioli yr haul, a barodd iddo droi o gwmpas, yn araf, fel yr haul ar ei echel. Yna efe a osododd fachgen bychan yn nesaf am Mercher; geneth am Gwener; yna un yn cyneirchioli yr ddaear, yna hogyn bychan tanbaid am Mawrth; a felly yn mlaen nes oedd yr holl gyfundrefn blanedawl wedi ei gosod, a phob un wedi cael hysbysrwydd pa mor gynted yr oedd i droi ar ei sodlau wrth fyned o gwmpas ei gylch. Ar arwydd penodol, dechreuai yr haul droi, ac ymaith a'r holl res planedau o'i gwmpas, a phob bachgen yn cadw yn ei belider priodol o'r canol, ac yn trotio gyda chyflymdra priodol yn ei gylch, gan droi o'i gwmpas mewn cyfartalwch priodol fel y cyflawnai ei gylchdroad.

Yr oedd yn rhaid ei bod yn olygfa anghyffredin, ac yn wers na anghofiodd y bechgyn; oblegid a ydych chwi yn meddwl, fy anwyl Syr, y gwnai John, yr hwn a gyneirchiolai Mercher, rywbryd anghofio, mor arnaf deg yr oedd ef yn cael *cerdded* o amgylch y lleban yn y canol, pan oedd Will yr hwn a gyneirchiolai Hercules, [Pwy oedd hwn?] yn *rhedeg* allan o wynt o gwmpas ei gylch? Ond os na ddarfu i'r bechgyn anghofio yr wers, ni ddarfu i'r meistr ychwaith; os cawsant hwy ddawnsio, gorfu iddo ef i dalu i'r *piper;* oblegid—arswydus—fe'i trowyd ef ymaith gan y pwyllgor ar unwaith! Yr oedd wedi bod yn dysgu am a wyddent hwy, ddawnsio y "*dervishes* Twrcaidd."

GOFYNIADAU
AT GALFINIAID.

Gyda'ch cennad, Mr. Ymofynydd. Wele fi yn cynnyg rhai gofyniadau etto, os gwelwch hwynt o werth i gaêl lle yn eich Misolyn. Crefaf hynawsedd y cyfryw a gyfeiriwyf attynt; gan ddymuno arnynt fy esgusodi am fy mod yn chwanegu y gofyniadau canlynol at y rhai a gynnygais i'w hystyriaeth yn Rhifyn Mai diweddaf. Peidied neb a chymeryd tramgwydd. Fy unig amcan yw, crëu ymofyniad yn yr ifainge, ac os gallaf, deffro eu deall i ystyried *sylfeini* yr "athrawiaethau iachus," a elwir felly. Dyma'r gofyniadau.

1. Pa fodd y gellir dywedyd, fod pechod dyn meidrol yn drosedd anfeidrol; ac o ganlyniad, yn haeddu cosp anfeidrol ac yn gofyn iawn anfeidrol? Nid yw geiriau yr ysgrythyr yn dywedyd dim o'r fath beth ,fel y gwyr pob dyn ystyriol ag sydd wedi eu darllen. Onid *rheswm* naturiol, eich rheswm chwi, O ddysgyblion Calfin, sydd wedi ffeindio i maes y rhyfeddod digyffelyb, sef bod anfeidroldeb yn perthyn i weithred dyn meidrol—ac nid i un weithred dda; ond i bob gweithred ddrwg a wnelo! Rhowch chwareu têg i'ch deall, ac yna mynegwch im', A oes un rhith o reswm yn hyn yna?

2. Os yw pob pechod dyn yn anfeidrol, a dim ond un iawn anfeidrol wedi ei roi dros bob dyn, pa fodd yr ymddengys y gall un dyn !od yn gadwedig? O bossibl y dywedech, er fod pob pechod ar ei ben ei hun yn anfeidrol, etto a chymmeryd yr holl bechodau gyda'u gilydd, nad ydynt yn ngolwg y gyfraith yn gynifer o anfeidrolion; eithr un pechod anfeidrol ydynt. Byddai hyn, rhaid addef, yn gyttnnol a *logic* Credo Athanasius; er yn amddifad o resymoldeb. Ond dirgelwch mawr ydyw, medd y bobl: dyryswch ydyw, meddaf finnau, nas gall un *System newydd* ei gyssoni.

3. Pa un ai ysgaru rhwng cosp a phechod, wnaeth Crist; neu, ynte, rhwng dyn a'i bechod? Yr olaf, meddaf fi. Ond, os y bloenaf, pa fodd y gallai efe ddywedyd "nas daeth i dorri y gyfraith?"

Yn awr gorphwysaf, yr eiddoch yn ostyngedig,

YMOFYNWR GLYNNEDD.

Chwefror 22. 1850.

At MR. T STEPHENS, Merthyr.

ANWYL SYR,

Gan wybod eich bod chwi yn fwy hyddysg a chyfarwydd yn Marddoniaeth, ynghydâ gwag orchestion ein cenedl, na nemawr o'ch cyfoedion, cymerym yr hyfdra o alw eich sylw at a ganlyn, gan erfyn eich barn arnynt, ynghydâ chyfieithad Seisonig o naddynt. Yr achos fy mod yn ceisio hyn yw, fod ei hawdur wedi eu cyflwyno i sylw y Beirdd fel cynllun iddeu hefelychu, gan addaw rhyw grach-wobr i'r neb a wnelo hyny oraf. Rhyfedd, onide? yw penwandod rhai dynion, heblaw NONSUCH y Gelli X. Am hwnw, druan ag e, y mae gwedi myned allan o afael meddyginiaeth.

Os byddwch garediced a chydsynio a'm cais iselwael, cyfrifir hyny yn gymwynas gan eich cyfaill.

ANTI-FFAL-LAL.

HIR A THODDAID AR Y GROES RYWIOG DDEUBLYG.

Diwygia'n d' agwedd y diogyn dygas,
Byrddawn heb urddau, bw! hwrddyn barddas,
Rhegen yw rhigwm, yr hogyn rhygas,
Anniddan nyddwr, hên wydd anaddas:
Panfa i'r pynful poenfawr penfas—dwl
A'i dardd hud oerddwl, a'i dwrdd diurddas.

ENGLYN UNODL

Bwrdd barddas beirdd o burddawn, bwrdd enwog.
Barddoniaeth hyfrydlawn;
Glawdd gloddest gwledd goleuddawn
Wnaed yn wych a'i nod yn iawn.

MARWOLAETH

Chwefror y 13eg. yn Nghaerfyrddin, yn 84 mlwydd oed, bu farw John Jenkins Ysw. Meddyg.—Yr oedd yn ddyn boneddigaidd, teimladol a chymwynasgar. Y tlodion a deimlant golled mawr; a'i gyfeillion, hiraeth trwm ar ei ôl. Yn y dref lle buasai yn dilyn ei alwedigaeth yn ddefnyddiol a llwyddiannus dros tua 50 mlynedd, yr oedd mewn parch uchel gyda phob grâdd. Nid yn aml y gwelid ei fath. Yr oedd gyda'r henaf o Undodiaid Cymru. Ac ar bob galwad ni chaed neb yn fwy parod nag ef i roi ei ysgwydd dan yr achos. Bu farw, fel y bu fyw, yn dawel a chysurus; a'i ffydd yn ddi-ysgog, "mai un Duw sydd, a hwnw yn Dâd."

I.

BARDDONIAETH.

Ar farwolaeth Mrs .WADDINGTON o Lanover, Mam y fyth-glodus Arglwyddes HALL, (Gwenynen Gwent) a fu farw y 19eg o Ionawr 1850. yn 78 ml. oed.

O angau! O angau! ti wneuthost dy waethaf—
Ti'n trewaist a syndod, ti'n dodaist yn fud;
Ti doaist Gwent hylon dan gaddug o'r duaf—
Ti lenwaist Lanover a galar i gyd.

Ti wneuthost dy waethaf a llonfeib yr AWEN—
Ti aethost ag ysbryd ag enaid y Gân;
Rhoist fraw ar bob cerddawr oedd gyneu mor llawen—
A pher sain y delyn ddystewaist yn lân.

Ti wneuthost dy waethaf a'r hên a'r methedig'
Oedd ar elusenau 'r fon' ddiges yn byw;—
Ti aethost a channerth y meudwy gwywedig—
Ti nodaist bob calon â dolur a briw.

Ti fwriaist i'r ceufedd anwylyd y gweddwon—
Ti lwyr amddifadaist 'r amddifaid o fam:
Ti lenwaist bob llygad a dagrau hiraethlon—
P'am gwneuthost ti felly? O angau! Paham?

Ti ddodaist deimladau ein hawddgar Arglwyddes,
I waedu o'r newydd gan dristwch ac aeth;—
Ti frathaist ei chalon—ti rwygaist ei mynwes
Oedd eisioes yn glwyfus. Beth all'sit oedd waeth?

Dos ' weithan—dos rhagot, hên fradwr aflawen—
Chwyrnella dy saethau drwy'n breindir o'r bron;
Ond arbed, O! arbed ein hanwyl WENYNEN—
Ni gollwn a feddwn os collwn ni hon.

Gad lonydd i hono, O elyn dynoliaeth,
A'th grafangc angeuol na chyffwrdd a hi,
Ond, gad iddi fyned heb weled marwolaeth,
O fynwes ei cheraint i fynwes ei Rhi.

Gad lonydd, Gad lonydd, i lonferch yr Awen
Am deiroes neu bedair, neu ddengwaith yn hwy;
Ac yna, os gorfydd, gad iddi gael gorphen
Ei gyrfa is wybren heb ddolur na chlwy.

Wel! Wel! os rhaid myned trwy ddyffryn marwolaeth,
O fyd yr helbulon i'r gwynfyd sy fry;
Doed angau pan ddelo—yn swn buddugoliaeth
Y seindorf nefolaidd—pob tristwch a ffy.

J. DAVIES, *Brychan.*

Tredegar, Chwef. 1850.

Penybont: Argraffwyd gan W. Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Mawrth, 1850.